



Nodyn cyfarfod

Cyfeirnod ffeil	EN010007
Statws	Terfynol
Awdur	Siân Evans
Dyddiad	3 Hydref 2017
Cyfarfod â	Horizon Nuclear Power
Lleoliad	Temple Quay House
Yn bresennol	Yr Arolygiaeth Gynllunio Chris White (Arweinydd Cynllunio Seilwaith) Kay Sully (Rheolwr Achos) Lynne Franklin (Cyfreithiwr, Adran Gyfreithiol y Llywodraeth) Siân Evans (Swyddog Achos) Steven Parker (Swyddog Achos Cynorthwyol) Hannah Pratt (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir) Helen Lancaster (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir) Richard Kent (Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir) Horizon Nuclear Power Alex Herbert Nigel Howarth (Clifford Chance) Viral Desai (Atkins)
Amcanion y cyfarfod	Diweddariad ar brosiect Wylfa Newydd ac adolygu dogfennau drafft
Dosbarthu	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cyflwyniad

Cyflwynodd Horizon Nuclear Power (yr Ymgeisydd) a thîm achos yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau unigol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ynglŷn â bod yn agored, gan sicrhau bod y rhai a oedd yn bresennol yn deall y byddai unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008. Yn ogystal â hyn, eglurwyd na fyddai unrhyw gyngor a roddir yn cynrychioli cyngor cyfreithiol y gall yr Ymgeisydd (neu eraill) ddibynnu arno.

Diweddariad ar y prosiect

Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn anelu at gyflwyno eu cais yn ystod chwarter 1af 2018. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i roi gwybod i'r Arolygiaeth, y Grid Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill allweddol, am unrhyw newidiadau i'r dyddiad cyflwyno, o ganlyniad i'r effaith y gallai hyn ei chael ar gyflwyno cais Cysylltiad Gogledd Cymru a'r goblygiadau i adnoddau'r Arolygiaeth a rhanddeiliaid.

Roedd yr Arolygiaeth yn falch o weld y dogfennau drafft, ond holodd pam yr oedd partion statudol penodol wedi cael dogfennau drafft i'w hadolygu ond nid eraill. Esboniodd yr Ymgeisydd mai'r dogfennau a roddwyd i bob parti statudol oedd y rhai hynny yr oeddent wedi datgan yr oeddent eisiau eu hadolygu pan ofynnodd yr Ymgeisydd iddynt. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ystyried ychwanegu cyfiawnhad o'r ymagwedd hon at ei Adroddiad Ymgynghori, ac esbonio os a sut oedd unrhyw faterion a gododd o'r ymgynghoriad anstatudol hwn wedi dylanwadu ar ddatblygu'r cais.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod eu ceisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) ar gyfer gwelliannau priffyrdd sy'n dilyn y llinell bresennol a gwaith paratoi safle yn debygol o gael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Hydref 2017. Gwnaethant gadarnhau hyd oed pe byddai caniatâd yn cael ei roi i'r gwaith paratoi safle o dan y TCPA, y byddai'r gwaith hwn yn parhau i gael ei gynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a, phe byddai'n cael ei ganiatáu, y byddai'r gwaith yn parhau o dan ganiatâd DCO Deddf Cynllunio 2008. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd i ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng amodau'r TCPA a gofynion Deddf Cynllunio 2008, er mwyn sicrhau eglurder i bartion statudol a allai fod â buddiant yn y gwaith yr ymdrinnir ag ef yn y ceisiadau hyn.

Adolygu dogfennau drafft

Dywedwyd wrth yr Ymgeisydd y byddai sylwadau manwl yr Arolygiaeth yn cael eu darparu fel atodiadau i'r nodyn o'r cyfarfod.

Gorchymyn Caniatâd Datblygu a Memorandwm Esboniadol

Nododd yr Arolygiaeth fod y Memorandwm Esboniadol (EM) yn datgan mewn manau bod erthygl "wedi'i seilio'n fras" ar erthyglau blaenorol neu'n "dilyn [geiriad darpariaeth enghreifftiol] i raddau helaeth". Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol, lle nad yw'r drafft yn unfath, pe gallai'r Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw addas erthygl yn newid yr effaith. Dylai'r Ymgeisydd hefyd gyfiawnhau sut mae darpariaeth benodol yn berthnasol i'r cais penodol hwn.

Mae'r Ymgeisydd o'r farn eu bod wedi rhoi esboniad helaethach nag a geir mewn Memoranda Esboniadol eraill a welwyd ganddynt. Dywedodd yr Arolygiaeth y gallai esboniad pellach leihaus nifer y cwestiynau gan bartion statudol a'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn ystod yr Archwiliad, a'i gwneud yn fwy eglur i bartion pam y ceisir pwerau penodol yn y DCO.

Llyfr Cyfeirio

Nododd yr Arolygiaeth fod y Llyfr Cyfeirio wedi cael ei rannu'n wahanol adrannau ar gyfer y brif ardal ddatblygu a gwaith oddi ar y safle, a bod rhifau lleiniau wedi dechrau o'r newydd ym mhob adran. Dywedodd yr Arolygiaeth y gallai priodoli'r un rhif i sawl llain fod yn ddryslyd, ac argymhellodd ddefnyddio rhif unigryw ar gyfer pob llain. Gallai hyn gael ei wneud trwy enwi'r adrannau'n A-H fel y byddai lleiniau'n cael eu rhifo'n A1, B1, C1 ac ati.

Cynlluniau

Nododd yr Arolygiaeth fod toriadau o ddalen i ddalen ar y Cynlluniau Tir yn dangos ardaloedd tebyg a bod y labeli ar goll ar gyfer rhai lleiniau ar ddalenni lle nad yw'r llain gyfan yn cael ei dangos ar un ddalen. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai'n ymchwilio i hyn.

Dywedodd yr Arolygiaeth nad yw'r Cynlluniau Gwaith yn cynnwys digon o fanylion am y rhannau unigol sy'n ffurfio'r gwaith. Dywedodd yr Ymgeisydd y bydd cynlluniau paramedr yn cael eu darparu gyda'r cais a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith.

Holodd yr Arolygiaeth p'un a fyddai cynlluniau allwedd yn cael eu darparu ar gyfer y gwaith oddi ar y safle a fyddai'n dangos y gwaith mewn perthynas â'i agosrwydd i'r prif safle. Dywedodd yr Ymgeisydd fod cynllun Terfynau Gorchymyn Trosolwg Datblygu wedi cael ei ddarparu sy'n dangos yr holl safleoedd.

Nododd yr Arolygiaeth nad oedd cynlluniau tir y Goron wedi cael eu darparu i'w hadolygu. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai'r rhain yn cael eu darparu gyda'r cais. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y dylai cynlluniau tir y Goron fod ar wahân i gynlluniau tir Categori Arbennig.

Adroddiad Ymgynghori

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ymatebion ymgynghori ar y Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned i'w weld yn yr Adroddiad Ymgynghori. Os oes camgymeriadau o ran dyddiadau ar lythyrau a anfonwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, dylai hyn gael ei esbonio'n llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Nododd yr Arolygiaeth fod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) Cysgodol drafft yn datgan bod y fethodoleg wedi cael ei thrafod a'i chytuno gyda'r Arolygiaeth. Atgoffodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd na ellid cytuno ar y fethodoleg gyda'r Arolygiaeth. Gallai'r Arolygiaeth gynghori ar y fethodoleg, ond ni fyddai'n dymuno rhwymo'r ExA i hyn.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai dogfen gyfeirio'n ddefnyddiol er mwyn egluro pa effeithiau sy'n perthyn i ba ganiatâd.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r honiad y bydd effeithiau datgomisiynu ac adeiladu yn un fath.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd nad yw eu hasesiad mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ar hyn o bryd. Cynghorwyd yr Ymgeisydd i ystyried effeithiau mewn cyfuniad lle'r oedd effaith anarwyddocaol ar safle.

Datganiad Amgylcheddol

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd am sicrhau bod y paramedrau a amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) yn gyson â'r rhai hynny yn y DCO. Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn ymwybodol bod ganddynt rywfaint o waith i'w wneud mewn perthynas â hyn.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei asesu ar sail yr achos gwaethaf.

Holodd yr Arolygiaeth sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu gwneud yn siwr y bydd y datblygiad a gynigir i leihau effeithiau trafndiaeth posibl (h.y. y ganolfan logisteg, parcio a theithio a gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi wrth y llinell bresennol) yn cael ei sicrhau er mwyn galluogi gweithredu ar yr adeg briodol yn ystod y cam adeiladu. Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn ystyried sut i symud ymlaen.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol cynnwys map llwybr o fesurau lliniaru. Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod wedi edrych ar enghreifftiau o hyn a gwnaethant holi p'un a ddylai gael ei wneud fesul thema neu bennod. Dywedodd yr Arolygiaeth y gellid ei wneud y naill ffordd neu'r llall, ond dylid ceisio lleihau dyblygu gymaint â phosibl. Byddai tabl crynhoi mesurau lliniaru ar ddiwedd pob pennod o'r ES yn ddefnyddiol.

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ddarparu tystiolaeth o randdirymiad Erthygl 4.7 gyda'u cais er mwyn lleihau'r pwysau sy'n gysylltiedig â pharatoi hyn yn ystod y cam Archwilio.

Gwybodaeth sy'n ofynnol wrth baratoi ar gyfer y cyflwyniad

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gyflwyno Canllaw i'r Cais er mwyn helpu pob parti i lywio trwy'r dogfennau a gweld yn rhwydd pan fydd dogfennau'n cael eu disodli. Mae enghraifft arfer da wedi cael ei hychwanegu at y wefan yn ddiweddar [yma](#).

Cynghorodd yr Arolygiaeth hefyd, o ran pob terfyn amser ar gyfer cyflwyno, ei bod yn ddefnyddiol cyflwyno llythyr eglurhaol gyda dogfennau'r Ymgeisydd sy'n gallu gweithredu fel crynodeb gweithredol. Gall hwn amlinellu pa ddogfennau a gyflwynwyd, crynhoi'r materion allweddol y mae pob dogfen yn ymdrin â nhw, a chyfeirio partion at y dogfennau sy'n berthnasol iddynt.

Dywedodd yr Arolygiaeth fod ei gwefan yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn awr, felly gellir gweld tudalen we Wylfa Newydd yn Gymraeg. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd angen i enw eu cwmni gael ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Awgrymodd yr Ymgeisydd y gallai'r ganolfan ymwelwyr ar gyfer gorsaf pŵer niwclear bresennol Wylfa gael ei defnyddio fel lleoliad ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol. Dywedodd yr Arolygiaeth efallai na fydd yn addas fel lleoliad ar gyfer archwiliad os yw'r Ymgeisydd yn berchen arni.

Unrhyw fusnes arall

Dywedodd yr Ymgeisydd fod ganddynt lythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â pha drwyddedau na fyddant yn cael eu cynnwys yn y cais DCO. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd am gynnwys hyn fel tystiolaeth yn eu dogfen Caniatadau Eraill a fydd yn cael ei chyflwyno gyda'r cais.

Holodd yr Ymgeisydd p'un a oedd eu hymagwedd at ofynion yn dderbyniol. Nid oes gan yr Arolygiaeth unrhyw bryderon penodol ar hyn o bryd, ond cynghorodd yr Ymgeisydd i ddechrau gweithio ar lunio Datganiadau Tir Cyffredin drafft gyda'r partion hynny a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gofynion.

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Tachwedd 2017.

Medi – Hydref 2017

Atodiadau:

Atodiad A – Sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol drafft

Atodiad B – Sylwadau ar yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol Drafft

Atodiad C – Sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r Memorandwm Esboniadol drafft

Atodiad D – Sylwadau ar y Datganiad o Resymau, y Datganiad Cyllido a'r Llyfr Cyfeirio drafft

Atodiad E – Sylwadau ar y cynlluniau drafft

Atodiad F – Sylwadau ar yr adroddiad Ymgynghori drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig. Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Atodiad A

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar y Datganiad Amgylcheddol

Mae penodau'r Datganiad Amgylcheddol (ES) drafft sy'n ymwneud â'r disgrifiad o'r prosiect wedi cael eu darparu ar wahân i weddill yr ES; felly, cydnabyddir y gallai'r Ymgeisydd eisoes fod wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion isod mewn dogfennau cais eraill.

Yn gyffredinol, mae'r penodau wedi'u drafftio'n dda a'u cyflwyno mewn modd rhesymegol. Nid yw'r Arolygiaeth Gynllunio wedi gweld unrhyw ffigurau eto, ond nodir bod y rhestrau o ffigurau yn y tudalennau cynnwys yn gymharol fyr (heblaw am Gyfrol G yr ES ar gyfer gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi wrth y llinell bresennol). Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r ES gynnwys ffigurau sy'n manylu ar yr amgylchedd presennol yn ogystal â lleoliadau a graddfeydd elfennau'r datblygiad arfaethedig (e.e. cynlluniau gosodiad safle).

Tabl 1: Paramedrau'r ES a chysondeb â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu

Prif sylw'r Arolygiaeth Gynllunio yw'r angen i'r Ymgeisydd sicrhau bod yr ES yn disgrifio ac asesu'r datblygiad y ceisir caniatâd ar ei gyfer, fel y'i hamlinellir yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft. Dylai'r sail y cynhaliwyd yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) arni fod yn amlwg i'r Awdurdod Archwilio bob amser, er enghraifft y paramedrau ac unrhyw dybiaethau penodol ynglŷn â threfnu camau a dulliau adeiladu. Os yw asesiadau wedi'u seilio ar luniadau y tu allan i'r ES (e.e. lluniadau peirianegol), dylai'r ES gadarnhau hynny.

Rhoddir sylwadau penodol eraill yn y tabl isod:

<i>Pwynt rhif</i>	<i>Cyfeirnod y ddogfen</i>	<i>Rhan/crynodeb</i>	<i>Cwestiwn/Sylw</i>
1	Nodyn briffio – paragraff 3.2	Mae'r asesiadau wedi'u seilio ar ddyluniad diffiniedig yr ystyrir ei fod yn cynrychioli'r senario achos gwaethaf realistig o ran effeithiau amgylcheddol.	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn atgoffa'r Ymgeisydd i ystyried yr egwyddorion a sefydlwyd yng nghyfraith achos Rochdale (gweler hefyd Nodyn cyngor naw: Amlen Rochdale). Er bod yr ymagwedd achos gwaethaf realistig yn gallu bod yn ddull defnyddiol o esbonio sut y gallai'r cynigion adeiledig tebygol fod yn llai ymwithiol na'r achos gwaethaf, dylai'r AEA gael ei gynnal mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr achos gwaethaf y gellid ei ganiatáu gan y DCO drafft wedi cael ei asesu. Mae hyn yn unol â'n cyngor a roddwyd yn flaenorol yng nghyfarfod 3 Mai 2017 .

2	Nodyn briffio – paragraffau 3.3-3.4	Mae profion sensitifrwydd yn cael eu cynnal i gadarnhau na fyddai'r achos gwaethaf yn sylweddol waeth na'r achos gwaethaf realistig.	<p>Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn nodi'r profion sensitifrwydd arfaethedig. Mae'r ymagwedd hon yn ddichonadwy, ond byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i unrhyw brofion o'r fath gael eu cyflwyno o fewn yr ES fel bod darllenwyr yn gallu bod yn sicr bod y senario achos gwaethaf wedi cael ei asesu. Bydd angen i'r Ymgeisydd ofalu nad yw hyn yn arwain at ddryswch.</p> <p>Pe byddai'r Ymgeisydd yn dymuno cyflwyno'r achos gwaethaf realistig o fewn yr ES, dylid gwneud hyn ochr yn ochr â'r senario achos gwaethaf, ac nid yn ei le, a dylai'r ES gyflwyno'r rhesymeg ynglŷn â pham na fyddai'r senario achos gwaethaf yn cael ei adeiladu.</p>
3	Datganiad Dylunio a Mynediad – paragraff 8.4.5	<p><i>“Adeiladau Grŵp 1: Adeiladau a strwythurau sefydlog – mae'r rhain yn sefydlog o ran eu lleoliad, ond yn destun paramedrau cymedrol o hyd at +/- 5m o ran hyd a/neu led a/neu +/- 2m uwchlaw datwm ordnans (AOD) o ran uchder.</i></p> <p><i>Adeiladau Grŵp 2: Adeiladau a strwythurau symudol – gall y rhain symud i unrhyw le o fewn y parth adeiladu lle y maent wedi'u lleoli. Yn ogystal, mae'r adeiladau / strwythurau eu hunain yn destun paramedrau o uchafswm o 10m yn hirach a/neu'n llydanach na'r lluniad sylfaenol a/neu hyd at 5m AOD yn uwch.”</i></p>	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod y terfynau gwyro hyn yn derbyn sylw yn yr ES. Er enghraifft, dimensiynau mwyaf adeiladau o ran effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, neu uchder lleiaf stac o ran effeithiau ansawdd aer.

4	Dogfen 6.4.1 Paragraff 1.8.5-6	<i>"Byddai'r cyfanswm o 4,000 o leoedd gwely'n cael eu darparu gan 25 o adeiladau, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys pedwar llawr (16.5m o uchder) neu bum llawr (20m o uchder) (heblaw am bedwar adeilad, a fyddai'n cynnwys saith llawr (27m o uchder))."</i>	Mae MS[30] yn darparu ar gyfer blociau hyd at 32m o uchder ac nid yw'n ymddangos bod uchder y lluniadau gweddolun (WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00014 a WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00015) yn cyd-fynd ag naill ai'r ES na'r DCO drafft. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r dimensiynau ym mhob dogfen gyfateb i'w gilydd.
5	Dogfen 6.5.1 paragraff 1.4.2-3	<p><i>"...mae'r dimensiynau adeiladau a aseswyd yn fwy na dimensiynau'r ymagwedd baramedr a geisir o dan y gofynion yn y DCO, ac felly mae'r asesiad yn cynrychioli senario achos gwaethaf"</i></p> <p>Mae paragraff 1.4.3 yn amlinellu'r tybiaethau y mae'r asesiad wedi'i seilio arnynt.</p>	Mae'r paramedrau mwyaf a ddarparwyd yn OPSF[3] y DCO drafft yn fwy na'r rhai hynny ym mharagraff 1.4.3 (heblaw am hyd yr adeilad ESL). Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ailadrodd ei sylwadau blaenorol bod rhaid i'r ES adlewyrchu'r hyn y gellid ei adeiladu pe byddai caniatâd yn cael ei roi.
6	Dogfen 6.6.1 Tabl F1-1	Tabl F1-1 Dimensiynau Adeiladau	<p>Nid yw dimensiynau'r storfa feiciau a ddarperir yn Nhabl F1-1 yn cyd-fynd â'r paramedrau yn PR3 y DCO drafft.</p> <p>Tybir mai'r 'cyfleuster trafndiaeth fysiau' a ddefnyddir yn Nhabl F1-1 yw'r 'adeilad terfynfa fysiau' yn PR3 y DCO drafft. Nid yw dimensiynau'r strwythur hwn a nodir yn Nhabl F1-1 yn cyd-fynd â'r rhai hynny yn PR3.</p> <p>Nid yw'r cysgodfannau bysiau a fanylir yn PR3 y DCO drafft wedi'u hamlygu yn Nhabl F1-1.</p>

Pwynt rhif	Cyfeirnod y ddogfen	Rhan/crynodeb	Cwestiwn/Sylw
7	Dogfen 6.6.1 Paragraff 1.4.3	<i>"Er bod y paramedrau ychydig yn fwy na'r dimensiynau a aseswyd yn yr AEA, ni fyddai'r paramedrau mwyaf a osodwyd gan ofynion y DCO yn achosi gwahaniaeth o bwys i'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol."</i>	Nid oes cyfiawnhad i'r datganiad hwn. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ailadrodd ei sylwadau blaenorol y dylai'r ES asesu'r senario achos gwaethaf.
8	Dogfen 6.7.1 Paragraff 1.4.2	<i>"Ni fyddai'r terfynau gwyro a osodwyd gan ofynion y DCO yn achosi gwahaniaeth o bwys i'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol"</i>	Nid oes cyfiawnhad i'r datganiad hwn. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ailadrodd ei sylwadau blaenorol y dylai'r ES asesu'r senario achos gwaethaf.
9	Dogfen 6.8.1 Tabl H1-1	Dimensiynau adeiladau/strwythurau	Tabl H1-1 – nid yw'r dimensiynau mwyaf ar gyfer y swyddfa/adeilad lles a'r man archwilio dan do yn cyd-fynd â'r dimensiynau mwyaf yn LC3 y DCO drafft. Mae paragraff 1.4.3 yn datgan <i>"ni fyddai'r paramedrau mwyaf a osodwyd gan y gofynion DCO yn achosi gwahaniaeth o bwys i'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol"</i> ; mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ailadrodd ei sylwadau blaenorol y dylai'r ES asesu'r senario achos gwaethaf.

Tabl 2: Sylwadau ychwanegol ar yr ES

Mae'r tabl isod yn rhoi sylwadau ar faterion y mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn y gellid mynd i'r afael â nhw orau yn ystod y broses cyn-ymgeisio er mwyn sicrhau bod y dogfennau'n eglur. Gallai'r materion hyn arwain at bwyntiau diddordeb yn ystod yr Archwiliad.

<i>Pwynt rhif</i>	<i>Cyfeirnod y ddogfen</i>	<i>Rhan/crynodeb</i>	<i>Cwestiwn/Sylw</i>
Dogfen 6.1.2 Cyfrol A yr ES – Cyflwyniad i'r prosiect a'r ymagwedd at yr AEA. Pennod A2 – Trosolwg o'r prosiect a chyflwyniad i'r datblygiadau			
1	Paragraff 2.5.1	<i>Disgwylir i'r prif gam adeiladu gymryd oddeutu saith mlynedd, gyda'r uned ABWR gyntaf ar waith yn 2025, a'r ail uned ABWR ar waith oddeutu dwy flynedd yn ddiweddarach.</i>	Dylai'r ES fynd i'r afael â'r effeithiau cyfunol posibl o ganlyniad i adeiladu a gweithredu ar yr un pryd yn ystod y cyfnod hwn.
2	Paragraffau 2.5.4-2.57	Darparu dyddiadau adeiladu disgwylidig ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio, y ganolfan logisteg a champws y safle; byddai'r gwaith adeiladu ar gyfer pob un yn dechrau yn 2019 ac yn parhau am gyfnodau amrywiol	Bydd elfennau o'r datblygiad arfaethedig yn cael eu darparu ac ar waith am gyfnod hir gyda gweithgarwch ar wahanol adegau; dylai hyn gael ei adlewyrchu yn yr asesiad. Os dibynnir ar unrhyw gamau penodol yn yr ES, mae'n rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn y DCO drafft.
Dogfen 6.4.1 Cyfrol D yr ES – Prif Safle'r Orsaf Bŵer. Pennod D1 – Datblygiad Arfaethedig			
3	Paragraff 1.1.2	Mae'n diffinio 'Safle Gorsaf Bŵer' ac 'Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd'	Defnyddir y termau diffiniedig yng Nghyfrol A hefyd, felly fe allai fod yn ddoeth eu diffinio yng Nghyfrol A yn ogystal ag/yn lle yng Nghyfrol D. Byddai ffigur sy'n darlunio'r ddwy ardal hyn yn ddefnyddiol hefyd.

4	Paragraff 1.2.1	Mae'n datgan bod mesurau lliniaru ymgorfforedig yn cael eu disgrifio yn y bennod hon.	Mae'r term 'mesurau lliniaru ymgorfforedig' wedi cael ei ddefnyddio unwaith eto yn unig yn y bennod (paragraff 1.9.21). Mae cyfeiriadau at 'fesurau ecolegol a mesurau cysylltiedig' (paragraff 1.6.86); y Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP) (paragraffau 1.6.128-131); mesurau atal llygredd (paragraff 1.6.133); mesurau arfer gorau (paragraff 1.6.216); a 'mesurau i leihau dal organebau morol' (paragraff 1.6.226); ond nid yw'n eglur pa un o'r rhain (os unrhyw rai) yr ystyrir eu bod yn fesurau lliniaru ymgorfforedig. O ystyried y cyfeiriad a wnaed at fesurau lliniaru ymgorfforedig, byddai'n helpu i ddeall yr ymagwedd at effeithiau lliniaru pe byddai'r gwahaniaeth rhwng mesurau lliniaru ymgorfforedig ac ychwanegol yn cael ei egluro.
5	Paragraff 1.3.1	<i>"Disgrifir yr ymagwedd Amlen Rochdale ym mhennod B1".</i>	Nid oes gan yr Arolygiaeth Gynllunio fersiwn ddrafft ar hyn o bryd, felly ni all wneud sylwadau ar yr ymagwedd hon.
6	Paragraff 1.3.5	<i>"Mae'r AEA wedi'i seilio ar osodiad Safle Gorsaf Bŵer Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd a gyflwynir ym mhennod A2 (ffigur A2-1), a'r dimensiynau adeiladau/strwythurau a gyflwynir yn y tablau yn y bennod hon. Mae'r dimensiynau hyn o fewn y paramedrau penodedig."</i>	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ailadrodd ei sylwadau uchod ynglŷn â'r angen i asesu'r senario achos gwaethaf.
7	dd/b	Disgrifiad o safle'r cais	Fel y nodir ym mharagraff 2.40 Barn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol (Ebrill 2016), dylai'r ES sicrhau bod y disgrifiad o'r prosiect a'r ffin llinell goch yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r Cynlluniau Gwaith yn amlygu ardal fwy o safle'r cais i'w defnyddio ar gyfer cloddwaith er mwyn sefydlu twmpathau tirweddu. Cynghorir y dylai'r ES egluro defnydd yr holl dir o fewn y ffin llinell goch; gellid hwyluso hyn trwy ddefnyddio ffigurau.

8	Adran 1.6		Mae'r adeiladau/strwythurau o fewn testun y bennod hon o'r ES yn cael eu disgrifio fel naill ai 'prif offer' neu 'offer cyffredin a chyfleusterau ategol'; mae rhai o'r adeiladau/strwythurau hyn wedi'u gosod yn y categori cyferbyniol yn Nhabl D1-6 (e.e. y Ddalfa Wres Eithaf Wrth Gefn (RUHS), pyllau selio a garej ar gyfer cerbydau brys teithiol). Atgoffir yr Ymgeisydd o'r angen i sicrhau cysondeb o fewn ac ar draws dogfennau cais.
9	Tabl D1-6	Mae'n amlygu 'pwll hidlo pêl'	Nid yw'r elfen hon yn cael ei disgrifio yn y testun.
10	Paragraffau 1.6.41 ac 1.6.204	Maen nhw'n amlygu cyfleusterau storio nwy	Nid yw'r rhain wedi'u manylu yn Nhabl D1-6.
11	Paragraff 1.6.80	Mae'n datgan bod tabl D1-1 yn cynnwys y pyrth adeiladu ac uchder platfformau	Teitl Tabl D1-1 yw 'Pyrth gweithio adeiladu a llwybrau halio'. Disgwylir i'r uchder platfformau i'w defnyddio ar gyfer yr AEA gyd-fynd â'r rhai hynny a fanylir yn y DCO drafft (e.e. MS[11]).
12	Paragraff 1.6.81	Mae'n manylu ar fesurau lliniaru i amddiffyn SoDdGA Tre'r Gof a SoDdGA Cae Gwyn.	Byddai'n ddefnyddiol i'r ES esbonio'r dulliau a fyddai'n cael eu defnyddio i sicrhau'r mesurau lliniaru.
13	Paragraff 1.6.83	<i>"Bwriedir dymchwel 35 o adeiladau a strwythurau eraill yn ystod y Gwaith Galluogi cynnar cyn i'r prif weithgareddau adeiladu ddechrau. Rhestrir yr adeiladau perthnasol yn nhabl D1-1."</i>	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn tybio mai camgymeriad yw'r cyfeiriad at dabl D1-1 yn y paragraff hwn (oherwydd teitl tabl D1-1 yw 'Pyrth gweithio adeiladu a llwybrau halio'), ac y bydd tabl addas yn cael ei gynnwys yn yr ES terfynol sy'n manylu pa adeiladau a strwythurau a fyddai'n cael eu dymchwel. Mae 'Datblygiad cysylltiedig (h)' yn y DCO drafft (tudalen 55) yn caniatáu ar gyfer 'dymchwel/symud adeiladau dros dro, adeiladau amwynder'. Dylai fod yn eglur pa adeiladau (mewn cysylltiad â Gwaith Rhif 3A, 5, 6 a 7) sy'n rhai 'dros dro' a pha rai a fyddai'n cael eu dymchwel.

14	Paragraffau 1.6.89-91	Rheoli rhywogaethau	A yw'r safleoedd derbyn hyn wedi'u lleoli o fewn ffin safle'r cais ac a ellir darparu ffigurau i ddangos eu lleoliad? Dylai eu defnydd fel safle derbyn gael ei sicrhau trwy gyfrwng addas a byddai'n ddefnyddiol disgrifio'r cyfrwng hwn yn yr ES.
15	Paragraffau 1.6.92-95	Dargyfeirio Nant Porth-y-pistyll	Mae dargyfeirio Nant Porth-y-pistyll wedi'i gynnwys yn y DCO drafft yn rhan o Waith rhif 12 (Paratoi'r safle a gwaith clirio), ond nid yw'n eglur o'r Cynlluniau Gwaith ble y byddai'r dargyfeiriad yn cael ei leoli gan fod Gwaith rhif 12 yn cynnwys gweithgareddau eraill a fyddai'n rhychwantu ardal ehangach. Dylai dargyfeiriad y cwrs dŵr gael ei ddangos ar ffigur yn yr ES. Os yw'r manylion dylunio a thrawsleoli llygod dŵr a ddisgrifir yn yr ES yn ofynnol i liniaru effeithiau arwyddocaol posibl o ganlyniad i'r gwaith hwn, dylai'r mesurau hyn gael eu sicrhau o fewn y DCO drafft.
16	Paragraff 1.6.100	<i>"Byddai'r peiriannau a fyddai'n ofynnol i adeiladu'r Orsaf Bŵer yn cynnwys tri chraen codi trwm iawn hyd at 250m o uchder a hyd at 40 craen tŵr hyd at 86m o uchder."</i>	Tybir mai'r craeniau hyn yw'r rhai y cyfeirir atynt yn MS[14] y DCO drafft. Mae colofn olaf y tabl yn y gofyniad hwn yn cyfeirio at 'graeniau', felly mae rhywfaint o amwysedd ynglŷn â ph'un a ellid adeiladu nifer o graeniau hyd at yr uchder mwyaf a nodwyd ym mhob parth a amlygwyd. Argymhellir bod y DCO yn egluro nifer y craeniau a ganiateir. Nodir hefyd nad yw'r DCO drafft yn cyfeirio at yr <i>'hyd at 40 craen tŵr hyd at 86m o uchder'</i> a amlygir yn yr ES, ond nid yw'n eglur pam. Sylwer hefyd, o ran adeiladu'r cyfleusterau morol, fod y DCO drafft yn caniatáu ar gyfer un craen hyd at 292m o uchder ym Mharth 7 (MS[10]); fodd bynnag, nid yw'r uchder hwn yn cael ei nodi yn yr ES.
17	Paragraff 1.6.110	<i>"Byddai'r gwaith cloddio dwfn hwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau adeiladu gan gynnwys ffrwydro creigiau a thechnegau symud mecanyddol."</i>	A yw'r gwaith hwn yn gyfystyr â datblygu ac, os felly, sut bydd yn cael ei awdurdodi?

18	Paragraff 1.6.111	<i>"Byddai gwaith prosesu creigiau'n cael ei wneud o fewn dwy ardal i'r de-ddwyrain o Safle'r Orsaf Bŵer."</i>	Argymhellir bod yr ES yn amlygu ar gynllun y lleoliadau lle y byddai'r gwaith prosesu creigiau'n cael ei wneud ac yn disgrifio pa weithgareddau a fyddai'n gysylltiedig â hyn.
19	Ffigur D1-2		Mae'n ymddangos bod Ffigur D1-2 yn dyblygu Ffigur A2-7 yn Nogfen 6.1.2 Cyfrol A Pennod A2 yr ES. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori y dylid lleihau dyblygu i'r eithaf lle y bo'n bosibl. Os bwriedir i Ffigur D1-2 gynrychioli gweithlu prif safle'r orsaf bŵer yn unig, nid yw'n eglur sut mae hyn yn wahanol i'r prosiect yn ei gyfanrwydd.
20	Paragraffau 1.6.148 ac 1.7.3	<i>"Mabwysiadwyd ffigur o 60% ar y môr a 40% ar y ffyrdd wrth asesu'r effaith ar y rhwydwaith ffyrdd"</i>	Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r ymrwymiad gael ei sicrhau trwy gyfrwng addas.
21	Paragraffau 1.6.162-169	Gweithrediad llawn yr Orsaf Bŵer	Gallai diagram syml fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo darllenwyr i ddeall y broses niwclear a sut y bydd y prif strwythurau arfaethedig yn gweithredu gyda'i gilydd.
21	Paragraff 1.6.194	Mathau o weithfeydd hylosgi	Byddai'n ddefnyddiol pe byddai uchder y staciau ar gyfer pob un o'r gweithfeydd hylosgi a'u lleoliad yn cael eu cyflwyno ar ffigur yn yr ES. Gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried cynnwys uchder pob un o'r staciau hyn o fewn y paramedrau a amlinellir yn MS[11] y DCO drafft?
22	Paragraffau 1.6.225-232	System dŵr oeri	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn tybio y bydd unrhyw fesurau dylunio yn ymwneud â'r strwythurau mewnlif dŵr oeri yn cael eu sicrhau trwy MS[25] a/neu MS[26] y DCO drafft.
23	Paragraff 1.7.4	<i>"Byddai gan y ddau blatfform angori arwynebedd bras o 65m wrth 30m"</i>	Nid yw'n eglur a yw'r arwynebedd hwn fesul platform neu'n gyfunol. Yn ogystal, y paramedrau mwyaf o fewn MS[15] y DCO drafft yw 'i hyd a lled Parth 1F-7', sy'n fwy na 65m wrth 30m ac yn ardal sy'n cynnwys elfennau eraill o'r Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF). Dylai'r paramedrau yn y DCO drafft gyfateb i'r rhai hynny yn yr ES. Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i leoliad y cei gael ei ddiwygio erbyn adeg y cais DCO.

24	Paragraff 1.7.5	Y cei Ro-Ro	Mae'r ES wedi darparu hyd bras ar gyfer wal y cei Ro-Ro, ond nid y lled. Yn debyg i'r cei swmplwythi, mae MS[15] y DCO drafft yn rhoi paramedrau mwyaf 'i hyd a lled Parth 1F-7', felly mae'r un sylw ag a roddir uchod yn berthnasol.
25	Paragraff 1.7.11	<i>"Nodir dimensiynau'r morgloddiau yn nhabl D1-6."</i>	Mae Tabl D1-6 yn rhoi dimensiynau adeiladau campws y safle. Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r dimensiynau a ddisgrifir ac a asesir yn yr ES gyfateb i'r rhai hynny yn MS[15] y DCO drafft. Nodir MS[19] ac MS[20] hefyd, a thybir y byddai'r rhain yn cael eu cyfuno gan fod eu teitlau yr un fath. A fydd y cyfeiriad at ddimensiynau morgloddiau yn MS[15] yn cael ei wneud yn MS[19]/MS[20]?
26	Paragraff 1.7.15	Dimensiynau ramp mynediad dros dro	Nid yw dimensiynau'r ramp mynediad dros dro yn yr ES yn cyfateb i'r rheiny yn MS[15] y DCO drafft.
27	Paragraffau 1.6.47, 1.6.118, 1.6.118 a 1.720-21	Argaeau coffr	Mae'r ES yn cyfeirio sawl gwaith at 'argaeau coffr' e.e. ym mharagraffau 1.6.47, 1.6.118, 1.6.118 a 1.720-21. Tybir bod yr 'argae coffr dros dro' y cyfeirir ato ym mharagraffau 1.720-22 yr un fath â'r 'argae coffr harbwr mewnol ym Mhorth-y-pistyll' a ddisgrifir ym mharagraff 1.6.122 a'r 'argae coffr bwnd' a fanylir yn MS[15] y DCO drafft; fodd bynnag, nid yw hyn yn eglur. Os yw'r dybiaeth hon yn gywir, nodir nad yw dimensiynau'r argae coffr dros dro yn yr ES yn cyfateb i baramedrau'r argae coffr bwnd yn y DCO drafft. Nid yw'n eglur o'r ES ychwaith p'un a yw'r argaeau coffr 'mewnlif' a 'gollwng' yn nodweddiadol dros dro neu barhaol ac a ydynt yr un fath â'r 'strwythur mewnlif' y cyfeirir ato mewn manau eraill yn yr ES. Mae paragraff 1.6.118 yn cyfeirio at argae coffr dros dro ym Mhorth Whal, ac nid yw'n amlwg i'r Arolygiaeth Gynllunio pa argae coffr yw hwn. Byddai disgrifiad mwy eglur, cysondeb â'r DCO drafft a ffigur sy'n dangos lleoliadau argaeau coffr o gymorth i'r darllenydd.

28	Paragraff 1.7.23	<i>"...yr harbwr allanol..."</i>	Nid yw'n eglur at beth y mae'r 'harbwr allanol' yn cyfeirio h.y. a yw o fewn neu'r tu allan i derfynau'r gorchymyn arfaethedig. Byddai'n ddefnyddiol i'r ES amlygu'r ardaloedd sydd i'w carthu, fel y cynghorwyd ym mharagraff 2.62 Barn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol (Mehfin 2017).
29	Paragraff 1.7.23	Carthu a chloddio	Mae MS[15] y DCO drafft yn datgan y byddai cyfaint mwyaf o 220,000m ³ o ddyddodion arwynebol yn cael ei garthu, ond nid yw'r ffigur hwn yn ymddangos ym mhenodau'r ES a ddarparwyd.
30	Paragraff 1.7.25	Amddiffyn y glannau	Mae'r ES yn amlygu dau leoliad ar gyfer amddiffyn glannau, ond mae MS[15] y DCO drafft yn amlygu un yn unig. Yn yr un modd ag elfennau eraill y datblygiad arfaethedig, nid yw'r dimensiynau yn yr ES yn cyd-fynd â'r rhai hynny yn y DCO drafft, a byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i hyn gael ei unioni.
31	Paragraff 1.7.27	<i>"Y cyfaint achos gwaethaf ar gyfer deunydd y gallai fod angen ei waredu ar y môr yw oddeutu 610,000m³"</i>	A oes angen i'r DCO drafft (e.e. MS[15]) gynnwys cyfaint mwyaf y deunydd wedi'i garthu o'r sianel fewnlif neu'r pocedi angori?
32	Paragraff 1.7.138	Carthu gweithredol	A oes angen i'r DCO drafft gynnwys cyfeintiau mwyaf deunydd wedi'i garthu yn ystod y cam gweithredol?
33	Paragraffau 1.8.4 a 1.8.16	Tirweddu campws y safle	A ellid cyfeirio at y cynlluniau arfaethedig ar gyfer tirweddu ac adfer y safle (h.y. Lluniadau WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00019 ac WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00009-00011)? O ystyried oes weithredol fer campws y safle, bydd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ddiddordeb i weld pa blanhigion a gynigir a'r ystyriaeth a roddwyd i sefydlu ac aeddfedu planhigion yn yr ES.

34	Paragraff 1.8.14	<i>“Byddai estyniad i’r Gwaith Trin Dŵr presennol yng Nghemaes, a weithredir gan Ddŵr Cymru Welsh Water (DCWW), ac sydd wedi’i leoli i’r gorllewin o Gampws y Safle, yn trin carthffosiaeth sy’n deillio o Gampws y Safle.”</i>	<p>Nid yw’n eglur p’un a fyddai’r gwaith hwn yn ffurfio rhan o’r datblygiad awdurdodedig gan nad yw’r Arolygiaeth Gynllunio yn gallu dod o hyd i gyfeiriad at y gwaith sy’n ofynnol ar gyfer yr estyniad i Waith Trin Dŵr presennol Dŵr Cymru yng Nghemaes yn y DCO drafft. Os felly, dylid darparu manylion yn y DCO a’r ES.</p> <p>Os nad yw’r gwaith yn ffurfio rhan o’r DCO, dylai’r Ymgeisydd ystyried y potensial ar gyfer effeithiau cronol.</p>
35	dd/b	Campws y safle – ffigurau	Rhoddwyd nifer o ffigurau drafft i’r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer campws y safle, er nad yw’r rhain yn ffurfio rhan o’r ES. Byddai defnyddio ffigurau tebyg ar gyfer yr ES yn briodol i alluogi darllenwyr i ddychmygu campws y safle.
36	Adran 1.9	Datblygiadau eraill ar y safle	<p>Cyfeirir at gyfadeiladau ac ardaloedd adeiladu dros dro yn y DCO drafft o dan y pennawd ‘Datblygiadau eraill cysylltiedig’, a dywedir y byddant yn cael eu sefydlu ‘ym mhob safle Gwaith’. Mae adran 1.9 yr ES yn awgrymu bod lleoliadau penodol wedi cael eu hamlygu ar gyfer prif safle’r orsaf bŵer ac yn datgan bod prif gyfadeilad y safle wedi cael ei ddewis i leihau lefelau sŵn i dderbynyddion gymaint â phosibl. Bydd angen i’r Awdurdod Archwilio ddeall y defnyddiau tir dros dro a pharhaol arfaethedig ar draws y safle; felly, dylai’r ES amlygu lleoliad cyfadeiladau’r safle. Gan fod eu lleoliad yn dibynnu ar leihau sŵn gymaint â phosibl, a oes angen i’w lleoliadau gael eu sicrhau?</p> <p>Mae adran 1.9 yn manylu ar waith a nifer o fesurau i leihau effeithiau posibl sy’n gysylltiedig â’r camau adeiladu a gweithredol i’r eithaf; byddai’r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl gweld y rhain yn cael eu sicrhau trwy gyfrwng priodol.</p>

Dogfen 6.5.1 Cyfrol E yr ES – Cyfleusterau Oddi ar Safle yr Orsaf Bŵer: Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen (AECC), Labordy Arolygu Amgylcheddol (ESL) a Garej Offer Brys Symudol (MEEG). Pennod E1 – Trosolwg o’r prosiect a chyflwyniad i’r datblygiadau

37	Paragraffau 1.3.20-22	Tirweddu	A ddylai'r tirweddu a'r amcanion strategaeth dirweddu arfaethedig gael eu sicrhau trwy OPSF[8]?
38	Paragraffau 1.3.34-38	Draenio	Nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut y byddai'r cynllun draenio'n cael ei sicrhau.
39	Paragraff 1.5.2	<i>"Byddai mwyafrif y gweithgareddau adeiladu'n cael eu gwneud o fewn ôl troed y safle..."</i>	Mae'r ES yn awgrymu y byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud y tu allan i safle'r cais DCO. Cynghorir y dylai'r geiriad hwn gael ei egluro.
40	Adran 1.6	Mesurau lliniaru	Croesewir y byddai'r mesurau lliniaru arfer da yn cael eu sicrhau trwy'r dogfennau CoCP. Dylai'r mesurau lliniaru ymgorfforedig gael eu sicrhau trwy gyfrwng addas hefyd.
Dogfen 6.6.1 Cyfrol F yr ES – Dalar Hir. Pennod F1 – Datblygiad arfaethedig			
41	Paragraff 1.1.7	<i>"Ar ôl i'r Orsaf Bŵer gael ei hadeiladu, byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei ddileu a byddai'r tir yn cael ei adfer i'w ddefnydd presennol (tir amaethyddol)."</i>	Mae'r gwaith ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio yn cynnwys cylchfan newydd. Nid yw'n eglur p'un a fyddai hon yn cael ei chadw neu ei datgomisiynu ar ôl i'r orsaf bŵer gael ei hadeiladu.
42	Paragraffau 1.3.21-24	Draenio	Sut bydd yr egwyddorion draenio hyn yn cael eu sicrhau?

43	Paragraff 1.5.2	<i>"Disgwylir y byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn dechrau cael ei adeiladu yn 2019 ac y byddai'r gweithgarwch adeiladu ar y safle'n parhau am oddeutu 18 mis. Byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud fesul cam er mwyn darparu'n fwyaf effeithiol ar gyfer y cynnydd yn y gweithlu adeiladu yn ystod y cyfnod tra bod yr Orsaf Bŵer yn cael ei hadeiladu."</i>	Os bwriedir i'r cyfleuster parcio a theithio liniaru effeithiau trafndiaeth posibl gweithwyr adeiladu, pa warantau a fydd yn sicrhau y bydd ar waith erbyn adeg benodol yn ystod y rhaglen adeiladu? Mae'r un peth yn wir am y gwaith priffyrdd sy'n gwyro oddi wrth y llinell bresennol a'r ganolfan logisteg. O ran y cyntaf, nodir bod paragraff 1.5.5 Cyfrol E yr ES yn datgan <i>"y byddai'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer yn dechrau cael eu hadeiladu ar ôl i'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 gael eu cwblhau"</i> .
44	Paragraff 1.5.3	<i>"Byddai gwaith adeiladu'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei gyfyngu i 08:00 tan 18:00 o'r gloch yn ystod yr wythnos a 08:00 tan 13:00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn"</i>	Sut bydd yr oriau adeiladu'n cael eu sicrhau?
45	Adran 1.6	Mesurau lliniaru	Croesewir y byddai'r mesurau lliniaru arfer da yn cael eu sicrhau trwy'r dogfennau CoCP. Dylai'r mesurau lliniaru ymgorfforedig gael eu sicrhau trwy gyfrwng addas hefyd.
Dogfen 6.7.1 Cyfrol G yr ES – Yr A5025 – Priffyrdd sy'n Gwyro Oddi Wrth y Llinell Bresennol. Pennod G1 – Datblygiad arfaethedig			
46	Paragraffau 1.3.3-4	Mesurau lliniaru	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu'r ffaith y byddai'r mesurau lliniaru a gynigir ym mharagraff 1.3.3 yn cael eu sicrhau trwy'r CoCP. Dylai'r mesurau ym mharagraff 1.3.4 gael eu sicrhau trwy gyfrwng addas hefyd.
47	Paragraff 1.3.18	<i>"Dangosir y dyluniad draenio amlinellol ar gyfer adran 1 ar ffigurau G1-1a a G1-1b."</i>	Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i'r dyluniadau draenio ar gyfer y gwaith arfaethedig gael eu sicrhau yn y DCO drafft.

48	Paragraffau 1.3.36-40	Triniaethau ffiniau a chloddwaith	Mae'r bennod hon o'r ES yn cyfeirio sawl gwaith at luniadau e.e. ar gyfer triniaethau ffiniau a chloddwaith. A fwriedir i'r rhain gael eu sicrhau trwy'r DCO drafft?
49	Paragraffau 1.3.41-47	Tirweddu	Yn wahanol i sawl un arall o'r gwaith datblygu cysylltiedig, nid yw'r DCO drafft yn cynnwys darpariaethau ar gyfer tirweddu'r gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi ar y llinell bresennol. Byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl gweld unrhyw dirweddu a fanylir yn yr ES yn cael ei sicrhau trwy gyfrwng addas.
50	Paragraff 1.3.56-60	Strwythurau	<p>Yn ogystal ag amlygu rhychwant clir gofynnol unrhyw draphont, trosbont neu strwythurau trosffordd, dylid darparu lleoliad ac uchder mwyaf strwythurau o'r fath yn yr ES. Dylai paramedrau strwythurau o'r fath gael eu cynnwys yn y DCO drafft a dylai eu lleoliadau gael eu hamlygu ar gynlluniau gwaith. (Er y nodir bod Gwaith rhif 9 yn y DCO drafft yn esbonio y bydd traphont uwch ben, nid yw'n ymddangos ei bod wedi'i hamlygu ar y cynllun gwaith.)</p> <p>Dylai manylion perthnasol gael eu diffinio gan gyfeirio at lefel sefydlog, sef naill ai AOD ar lefel bresennol y tir neu AOD ar lefel arfaethedig y tir, a dylent fod yn gyson drwy gydol yr ES. Byddai lluniadau trawsdoriadol o'r holl waith gwella priffyrdd sy'n gwyro oddi ar y llinell bresennol o gymorth yn hyn o beth. Bydd y manylion hyn yn arbennig o bwysig er mwyn i ddarllenwyr ddeall yr effeithiau posibl ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol posibl.</p> <p>Mae Gwaith rhif 10 yn y DCO drafft yn cyfeirio at 'drosffordd gysylltiedig' ar gyfer rhan 5 y gwaith gwella priffyrdd sy'n gwyro oddi wrth y llinell bresennol; ni chyfeirir at hyn yn y disgrifiad yn yr ES.</p>

51	Paragraff 1.3.62	<i>"Byddai chwe chwlfert; tri ar gyfer y ffordd osgoi a thri ar gyfer llwybrau mynediad sy'n croesi draeniau tir."</i>	Nid yw'r cwlfertau wedi'u cynnwys yn y disgrifiad o'r datblygiad awdurdodedig yn y DCO drafft. Dylai'r gwaith gael ei ddisgrifio'n gyson yn y datblygiad awdurdodedig a'i ddangos ar y cynlluniau gwaith.
52	Paragraffau 1.5.24, 1.5.36, 1.5.55 a 1.5.75	Adfer tir	Sut y bwriedir sicrhau bod y tir a ddefnyddir dros dro yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei adfer?
53	Amrywiol	Goleuadau gweithredol	Nid yw'r DCO drafft yn cynnwys gofynion ar gyfer rheoli goleuadau gweithredol y gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi ar y llinell bresennol. Fodd bynnag, nodir bod gofynion goleuadau gweithredol ar gyfer safleoedd datblygu cysylltiedig eraill e.e. MS7, OPSF7 a PR5. A ddisgwylir gofyniad tebyg ar gyfer y gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi ar y llinell bresennol?
54	dd/b	Disgrifiad o'r prosiect	Byddai'n ddefnyddiol i'r ES amlygu hyd pob rhan o'r gwaith (h.y. yn debyg i'r hyn a ddarperir yn y DCO drafft).
Dogfen 6.8.1 Cyfrol H yr ES – Canolfan Logisteg. Pennod G1 – Datblygiad arfaethedig			
55	Tabl H1-1	Dimensiynau'r adeilad/strwythur	Dylai'r ES amlygu'r adeiladau eraill a restrir yn LC3 y DCO drafft fel ei bod yn amlwg beth sy'n cael ei asesu.
56	Paragraffau 1.3.12-14	Goleuadau	Yn yr un modd â'r gwelliannau priffyrdd sy'n gwyro oddi wrth y llinell bresennol, nid yw'r DCO drafft yn cynnwys gofynion ar gyfer rheoli goleuadau gweithredol yn y ganolfan logisteg yn benodol. A ddisgwylir gofyniad ar gyfer y ganolfan logisteg?
57	Paragraff 1.5.4	<i>"Disgwylir y byddai'r Ganolfan Logisteg ar waith am gyfnod rhwng 2020 a 2030."</i>	Nid yw'n eglur pam y byddai'r ganolfan logisteg yn gweithredu tan 2030, gan fod hyn y tu hwnt i gam adeiladu'r Orsaf Bŵer a amlinellir yn Ffigur D1-1 Cyfrol D yr ES. Dylid egluro hyn.

58	Adran 1.6	Mesurau lliniaru	Croesewir y byddai'r mesurau lliniaru ymgorfforedig ac arfer da yn cael eu gweithredu; dylai'r rhain gael eu sicrhau trwy gyfrwng addas.
59	dd/b	Adfer	Nid yw'r ES na Gwaith rhif 7 y DCO drafft yn cyfeirio at adfer y safle ar ôl iddo gael ei ddatgomisiynu. Dylai fod yn eglur beth fydd yn digwydd i'r safle pan na fydd y ganolfan logisteg yn gweithredu mwyach.

Atodiad B

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol Drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig. Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Rhoddir sylwadau yn y tabl isod:

Pwynt Rhif	Adran	Rhan o'r Ddogfen	Cwestiwn/Sylw
1	Cyffredinol		Mae'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) cysgodol yn ymdrin ag effeithiau'r gwaith a fyddai'n cael ei ganiatáu o dan y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), y Drwydded Forol a 3 Trwydded Amgylcheddol. Er bod yr adroddiad yn ceisio darparu gwybodaeth ynglŷn â pha weithgareddau a fyddai'n destun y ceisiadau am Drwydded Amgylcheddol neu Drwydded Forol (gweler paragraff 5.4.13 ac Atodiadau F.4 a G.4), byddai'n elwa o esboniad eglur ynglŷn â pha effeithiau y disgwylir iddynt gael eu cynhyrchu gan y gwaith y bwriedir ei ganiatáu gan y DCO, pa effeithiau a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan waith a fyddai'n dod o dan y DCO a'r Drwydded Forol, a'r effeithiau a fyddai'n cael eu cynhyrchu'n unig gan weithgareddau a ganiateir o dan y Drwydded Forol a'r Trwyddedau Amgylcheddol.
2	3.1.1	<i>Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr HRA Cysgodol hwn wedi cael ei thrafod a'i chytuno gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.</i>	Dylid nodi er bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn falch o roi cyngor ynglŷn â HRA mewn perthynas â'r archwiliad ar gyfer y DCO, nid yw'r ffaith ein bod yn cymryd rhan yn y Gweithgor HRA yn gyfystyr â chytuno ar y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cwmpasu, sgrinio ac asesu priodol.

3	4.7		<p>Mae'r adran ar gwmpasu trawsffiniol yn cynnwys cyfeiriadau at ymgynghori â'r cyrff gwarchod natur statudol yng Ngogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban. Fel arfer, ystyrir bod ymgynghori trawsffiniol yn cyfeirio at ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, felly nid yw'n eglur pam mae Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban wedi cael eu cynnwys yn yr adran hon. Cynghorir yr Ymgeisydd i gynnwys copiau o'r ohebiaeth yn fersiwn derfynol yr HRA.</p>
4	Cyffredinol	<p><i>Y dull a ddefnyddiwyd yma i sgrinio ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) yn ystod y cam datgomisiynu oedd ystyried yr effeithiau posibl a amlygwyd ar gyfer y cam adeiladu (ac, yn achos gollyngiadau radiolegol, y cam gweithredol). Bydd yr effeithiau posibl hyn yn cael eu hailadrodd (i raddau) yn ystod y cam datgomisiynu ac mae set o dybiaethau gweithio ar gyfer y cam hwn o'r prosiect wedi cael ei sefydlu ar gyfer pob un o'r categorïau sgrinio (tabl 5.5).</i></p>	<p>Er y nodir y gall unrhyw asesiad o ddatgomisiynu fod wedi'i seilio ar dybiaethau ynglŷn â'r ffordd y caiff ei wneud yn unig, o ystyried y disgwylir i'r prosiect fod ar waith am oddeutu 60 mlynedd, a yw'r Ymgeisydd yn fodlon ei fod wedi darparu digon o dystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth y bydd effeithiau datgomisiynu yr un fath ag effeithiau adeiladu, neu'n llai na hynny?</p>

5	5.6.1	<p><i>Roedd yr ymagwedd at yr asesiad Sgrinio Cam 1 'unigol' ar gyfer y Prosiect yn fwriadol ragofalus, yn yr ystyr y daethpwyd i'r casgliad bod LSE yn bodoli os oedd unrhyw bosibilrwydd o unrhyw effaith ddirnadwy ar nodwedd o ddiddordeb. Fel y cyfryw, ystyrir nad yw'r Prosiect yn debygol o gael effaith yn unigol nac mewn cyfuniad ar y Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig na chynhwyswyd yn yr asesiad sgrinio LSE 'unigol'. Trafodwyd yr ymagwedd hon gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2017 (yn ystod gweithdy asesu mewn cyfuniad) gyda'r bwriad o egluro'r ymagwedd arfaethedig. Nid oedd yr ymarfer hwn wedi arwain at gynnwys unrhyw safleoedd newydd yn yr asesiad mewn cyfuniad. O ganlyniad, pan ystyriwyd cynlluniau a phrosiectau eraill mewn cyfuniad â'r Prosiect, ni chynhwyswyd unrhyw Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig y tu hwnt i'r rhai hynny a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn yr asesiad 'unigol'.</i></p>	<p>Mae'r ymagwedd at asesiadau 'mewn cyfuniad' yn ymddangos yn ddrwslyd ac nid yw'n eglur a yw'n bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Fel y disgrifir ym mharagraff 5.6.1, mae pob safle Ewropeaidd lle mae effeithiau'n bosibl yn hytrach nag yn arwyddocaol wedi cael ei sgrinio ar gyfer asesu ychwanegol. Mae hyn yn golygu, pan ystyrir effeithiau mewn cyfuniad, bod yr HRA cysgodol yn ystyried effeithiau arwyddocaol yn unigol ac mewn cyfuniad i bob pwrpas, yn hytrach nag yn unigol neu mewn cyfuniad, sef yr hyn sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cynefinoedd mewn gwirionedd.</p>
6	5.3.15	<p><i>...Fodd bynnag, o ran yr HRA, mae cynlluniau a phrosiectau a allai gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd morol ac ar Ynys Môn wedi cael eu hamlygu, ac fe'u cynhwysir a'u hystyrir yn atodiad B</i></p>	<p>O ran y cynlluniau neu'r prosiectau eraill a gynhwyswyd yn yr asesiad mewn cyfuniad, mae'n ymddangos bod paragraff 5.3.15 yn datgan eu bod wedi cael eu dewis ar sail y ffaith y byddent yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd morol ac ar Ynys Môn. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd y gallai rhai cynlluniau neu brosiectau gael effeithiau anarwyddocaol a fyddai'n rhyngweithio ag effeithiau'r prosiect i achosi effeithiau arwyddocaol. A yw'r Ymgeisydd wedi dod i gytundeb â'r rhanddeiliaid perthnasol ynglŷn â pha gynlluniau neu brosiectau y dylent gael eu cynnwys yn yr asesiad mewn cyfuniad?</p>

7	8.4.4	<p><i>Daethpwyd i'r casgliad yn adran 8.3 A2 ynglŷn ag effeithiau unigol bod sŵn a gludir yn yr aer yn ystod y gwaith adeiladu yn annhebygol iawn o arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol ar forloi llwyd a morloi harbwr a'r Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig y maen nhw'n nodwedd gymhwyso ohonynt. Felly, nid oes unrhyw bosibilrwydd y bydd unrhyw effeithiau mewn cyfuniad o ran sŵn a gludir yn yr aer yn ystod y gwaith adeiladu yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig o ystyried eu hamcanion cadwraeth.</i></p>	<p>Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd a ddisgrifir yn y paragraff hwn, ac a ailadroddir mewn mannau eraill yn yr HRA cysgodol, yn awgrymu oni bai bod effeithiau arwyddocaol tebygol wedi cael eu hamlygu o ganlyniad i ddatblygiad Wylfa neu gynlluniau neu brosiectau eraill a gynhwyswyd yn yr asesiad, ni fyddai'n bosibl i effeithiau arwyddocaol mewn cyfuniad ddigwydd. Unwaith eto, nid yw'n ymddangos bod hyn yn mynd i'r afael â'r posibilrwydd y gall effeithiau anarwyddocaol ryngweithio i arwain at effeithiau arwyddocaol mewn cyfuniad.</p>
8	Tabl 8-53	<p>Mewn perthynas â Pharc Eco Ynys Môn: <i>Tybir y byddai'r potensial ar gyfer unrhyw anaf clywedol yn cael ei liniaru. Felly, nid oes unrhyw bosibilrwydd y bydd unrhyw effeithiau mewn cyfuniad yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle.</i></p>	<p>Nid yw'n ymddangos bod dibynnu ar brosiectau eraill i ddarparu mesurau lliniaru ac felly osgoi effeithiau arwyddocaol mewn cyfuniad yn cydymffurfio â chyfraith achosion. Byddai'n fwy cywir dweud nad oes gwybodaeth ar gael a fyddai'n caniatáu asesu'r effeithiau posibl mewn cyfuniad, ac felly effeithiau cyfunol Wylfa a Pharc Eco Ynys Môn. Fodd bynnag, pe byddai'r sefyllfa'n newid cyn diwedd yr archwiliad, dylai'r Ymgeisydd fod yn barod i ddiweddarau'r asesiadau mewn cyfuniad yn yr HRA.</p>
9	Cyffredinol		<p>Mae'r HRA cysgodol yn cyfeirio sawl gwaith at bwyntiau a gytunwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r ohebiaeth/cofnodion y cyfarfod lle y cytunwyd ar y pwyntiau hyn yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol yr HRA cysgodol.</p>
10	Cyffredinol		<p>Mewn rhai achosion, mae'r HRA cysgodol yn croesgyfeirio at y bennod o'r datganiad amgylcheddol neu'r atodiad sy'n cynnwys y dystiolaeth sy'n ategu casgliadau'r HRA. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, nid yw'n gwneud hynny (er enghraifft yn Nhabl 5-1 neu baragraff 10.3.46), felly nid yw'n eglur ble y gellir dod o hyd i'r dystiolaeth ategol ar gyfer datganiad. Dylai'r HRA cysgodol groesgyfeirio'n eglur at dystiolaeth ategol lle bynnag y bo'n bosibl.</p>

11	4.6.27 – 4.6.30	<i>Felly, ni chynhwyswyd unrhyw AGAau na safleoedd Ramsar ar gyfer asesiad ychwanegol yn yr HRA Cysgodol ar sail poblogaethau rhydyddion neu adar dŵr sy'n teithio trwodd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â'r casgliad hwn.</i>	Mae sawl un o'r safleoedd Ewropeidd y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn Lloegr yn gyfan gwbl (AGA Aberoedd Ribble ac Alt, er enghraifft) felly nid Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) cyfrifol. Gan fod Natural England wedi dweud, mae'n debyg, nad oes ganddynt unrhyw bryderon (adran 4.7 yr HRA cysgodol), byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at eu hymateb yn yr adran hon.
12	Atodiad F		Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymhell yn gryf bod y matricesau sgrinio'n cynnwys paragraff cyflwyniadol sy'n esbonio pam nad yw rhai nodweddion safleoedd Ewropeidd wedi cael eu cynnwys (e.e. nid oes llwybr ar gyfer effeithiau), ac yn croesgyfeirio at yr adrannau perthnasol o'r HRA a/neu'r ES, fel y bo'n berthnasol.
13	Tabl 11-1		Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn falch o weld Tabl 11-1 wedi'i gynnwys. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai Pennod 3 yn cyfeirio'r darlennydd at y tabl hwn fel y gallai weld yn rhwydd sut mae mesurau lliniaru wedi cael eu sicrhau.
14	6.4.18		Mae'r safonau thermol a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad o effeithiau cynnydd mewn tymheredd yn cyfeirio at rywogaethau eogiaid, ond mae'n ymddangos bod gweddill yr asesiad yn ymdrin ag eogiaid yr Iwerydd yn benodol. Nid yw'n gwbl eglur sut mae'r effeithiau ar rywogaethau eogiaid cynhaliol eraill wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar gyfer misglod perlog yr afon.
15	6.5.54	<i>Mae Horizon wrthi'n prynu data o arolygon Minesto i lywio'r asesiad, ond nid oedd y rhain ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn y fersiwn hon o'r HRA cysgodol.</i>	A fydd Pennod 6 yr HRA cysgodol yn cael ei ddiweddarau i gynnwys data arolwg Minesto?
16	6.5.103	<i>Mae poblogaethau bridio adar drycin y graig, gwylogod, palod a gwylanod cefnddu lleiaf yn nodweddion cymhwyso AGA Ynys Lambay.</i>	Nid dyma'r unig rywogaethau adar sy'n nodweddion AGA Ynys Lambay. Byddai'n ddefnyddiol egluro yma mai'r rhain yw'r unig nodweddion sydd o fewn pellter chwilota cymedrig mwyaf Pyrth Dylanwad y prosiect, os dyna pam nad yw'r rhywogaethau eraill wedi cael eu cynnwys yn yr HRA cysgodol.

17	7.4.94	<i>Lle mae cyfraniad y broses (sy'n golygu'r cyfraniad a wneir gan y gweithgaredd) yn llai nag 1% o'r lefel gritigol berthnasol neu'r llwyth critigol perthnasol, nid yw'r allyriad yn debygol o fod yn arwyddocaol yn unigol nac mewn cyfuniad, ni waeth beth fo'r crynodiadau neu'r cyfraddau dyddodi presennol.</i>	A yw'r Ymgeisydd yn ymwybodol o'r dyfarniad yn achos Wealden District Council v Secretary of State for Communities and Local Government [2017] EWHC 351? Dyma'r ddolen i'r dyfarniad: http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2017/351.html
18	D1		Byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd pe byddai'r testun yn datgan mai Esgair Cemlyn yw'r enw ar y cefn graean ar draws y lagŵn.
19	8.3.11	<i>Drilio cyfamserol lle y gallai dau rig drilio fod ar waith ar y safle.</i>	A oes rhywfaint o destun ar goll o'r frawddeg hon? Nid yw'n gwneud llawer o synnwyr fel y mae wedi'i hysgrifennu ar hyn o bryd.
20	9.3.1		Mae'n ymddangos bod newidiadau yn ymwneud â thymheredd y dŵr, siltio a chemeg oll wedi'u casglu ynghyd o dan 'ansawdd dŵr'. A all yr Ymgeisydd gadarnhau bod newidiadau yn ymwneud â'r ysglyfaethau sydd ar gael wedi derbyn sylw (neu gyfiawnhau pam nad oedd hyn yn angenrheidiol)?
21	10.4.47/ Atodiad F	<i>Crynodiad adar môr o bwysigrwydd rhyngwladol</i>	Y nodwedd gymhwyso a restrir yn yr HRA cysgodol ar gyfer AGA Ynys Rathlin yw crynodiad adar môr o bwysigrwydd rhyngwladol, ond ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), y nodweddion cymhwyso a roddir yw poblogaethau bridio hebogiaid tramor, llursod, gwyllanod coesddu a gwylogod, heb gyfeirio at grynodiad. A ellir mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn, os gwelwch yn dda?
22	Pennod 11		Mae'r bennod hon yn ailadrodd llawer o wybodaeth o Bennod 3, gan gynnwys y diagram sy'n dangos camau'r broses HRA. A oes angen dyblygu hyn?

Atodiad C

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a'r Memorandwm Esboniadol (EM) Drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig. Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Rhoddir sylwadau yn y tabl isod:

Cyffredinol	
1	<p>Pan fydd y gorchymyn caniatâd datblygu (DCO) yn cael ei gwblhau'n derfynol, dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl gyfeiriadau mewnol a throednodiadau cyfreithiol yn cael eu gwirio a bod y drafftio'n dilyn yr arfer gorau yn Nodyn Cyngor 15 ac unrhyw ganllawiau ar ddrafftio offerynnau statudol.</p> <p>Mae'r Memorandwm Esboniadol (EM) yn nodi mewn manau bod erthygl "wedi'i seilio'n fras" ar erthyglau blaenorol neu'n "dilyn [geiriad darpariaeth enghreifftiol] i raddau helaeth". Byddai'n ddefnyddiol yn yr achosion hyn (lle nad yw'r testun yn union yr un fath â'r ddarpariaeth enghreifftiol neu'r erthygl flaenorol), pe gallai'r Ymgeisydd egluro p'un a yw'r newid yn ddibwys ac wedi'i wneud oherwydd bod y ddarpariaeth enghreifftiol, ym marn yr Ymgeisydd, yn aneglur neu y gellid ei gwella neu nad yw'n dilyn arfer drafftio safonol offerynnau statudol neu wedi cael ei haddasu i newid effaith yr erthygl.</p>
2	<p>Er gwaethaf y ffaith bod cynsail ddrafftio wedi cael ei gosod gan Orchmynion Caniatâd Datblygu blaenorol, yr Awdurdod Archwilio (ExA) fydd yn gyfrifol am ystyried ac archwilio p'un a yw darpariaeth benodol yn y DCO hwn yn briodol ai peidio, gan bwysu a mesur ffeithiau'r cais DCO penodol hwn ac ystyried unrhyw safbwyntiau a fynegwyd gan yr awdurdodau perthnasol a'r partion â buddiant.</p>
Erthygl 2 – Dehongli	
3	<p><i>diffiniad o ddechrau i eithrio gweithrediadau amrywiol:</i> Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM esbonio ble mae'r awdurdodiad ar gyfer y gweithrediadau (i) i (ix) yn y DCO drafft - e.e. mae erthygl 75 yn awdurdodi torri (ac ati) coed - a (lle maen nhw'n gyfystyr â datblygiad) ph'un a yw unrhyw ran o'r gwaith wedi'i rhestru yn Atodlen 1, ac os na, sut y caiff ei</p>

	hawdurdodi. Mae erthygl 3 yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig, a'r weithred o gynnal y datblygiad awdurdodedig yw'r hyn sy'n ddarostyngedig i'r gofynion. Nodir yn yr EM bod effaith "cerfio allan" yn golygu bod gwaith (i) i (ix) yn gallu cael ei wneud heb angen cyflawni gofynion. A allai'r EM egluro sut mae'r ffordd y drafftiwyd y DCO yn sicrhau y bydd y gweithrediadau/gwaith yn (i) i (ix) yn cael eu rheoli er hynny gan ofyniad i gael eu cynnal yn unol â'r CoCP?
4	<i>Gwaith datblygu cysylltiedig penodol</i> : Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM groesgyfeirio at baragraffau [9.20] ymlaen (erthygl 83) sy'n esbonio'r cyfrwng cyfreithiol a ddefnyddir i ddychwelyd i ddefnydd amaethyddol blaenorol.
Erthygl 5 – Effaith y Gorchymyn ar ganiatâd paratoi a chlirio'r safle	
5	Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM egluro ar ba sail statudol y gwneir y ddarpariaeth sy'n atal effaith y caniatâd cynllunio (gan gyfeirio at adran 120), a chadarnhau p'un a oes angen rhwymedigaeth caniatâd datblygu ai peidio i atal gweithredu'r caniatâd cynllunio. Bydd safbwyntiau Cyngor Sir Ynys Môn yn bwysig fel yr Awdurdod Lleol sydd â'r grym i orfodi telerau'r caniatâd cynllunio a'r DCO.
Erthygl 9 – Caniatâd i drosglwyddo budd y Gorchymyn	
6	Mae erthygl 9 (4) yn "adlewyrchu i raddau helaeth" yr ymagwedd yng Ngorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 sy'n darparu: (5) Nid oes angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer trosglwyddo neu ganiatáu, am gyfnod cytunedig, fudd unrhyw un o'r darpariaethau (ac unrhyw hawliau statudol perthynol) i gorff arall sydd wedi'i drwyddedu o dan adran 6(1)(a) Deddf Trydan 1989(a), neu sydd wedi'i eithrio'n ffurfiol o'r gofyniad am drwydded o'r fath.
7.	Nodir nad oedd Gorchymyn Hinkley Point C (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) 2013 yn cynnwys darpariaeth drosglwyddo debyg (yn dileu'r angen am ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol mewn amgylchiadau o'r fath). Byddai'n ddefnyddiol esbonio effaith erthygl 9, sef cyfyngu dosbarth y trosglwyddedigion. Bydd hwn yn fater i'r ExA ei archwilio ymhellach cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol.
Erthygl 10 – Amddiffyniad yn erbyn achos yn ymwneud â niwsans statudol	
8	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod y datganiad a baratoir i gydymffurfio â rheoliad 5 (2) (f) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 yn darparu digon o wybodaeth am fesurau lliniaru (a sicheir gan y CoCP ac ati) i alluogi'r ExA i ystyried p'un a yw'n briodol creu'r amddiffyniad ychwanegol hwn.

Erthygl 11 – Pŵer i newid trefn (ac ati) strydoedd ac Erthygl 13 – Cymhwyso Deddf 1991	
9	Yn ôl Darpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol 8 (2): (2) Mae'r awdurdod a roddir gan baragraff (1) yn hawl statudol at ddibenion adrannau 48(3) (strydoedd, gwaith stryd ac ymgwymerwyr) a 51(1) (gwahardd gwaith stryd anawdurdodedig) Deddf 1991.
10	Diffinnir hawl statudol yn Neddf 1991 fel "hawl (p'un a'i mynegir fel hawl, pŵer neu fel arall) a roddir gan ddeddfiad (pryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud), heblaw am hawl y gellir ei harfer trwy gyfrwng trwydded gwaith stryd." Nid yw'n eglur pam "nad oes angen" erthygl [8] (2) mwyach. A yw'r diwygiad hwn yn cael ei wneud oherwydd bod yr Ymgeisydd o'r farn bod Darpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol 8 (2) yn aneglur/yn ddiangen?
11	Yn ôl Darpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol 8 (3): (3) Mae darpariaethau adrannau 54 i 106 Deddf 1991 yn berthnasol i unrhyw waith stryd a wneir o dan baragraff (1)
12	Mae adrannau 54 i 106 Deddf 1991 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysu am waith a chydlynu gwaith, strydoedd sy'n ddarostyngedig i reolaethau arbennig, gofynion cyffredinol ynglŷn â chyflawni gwaith stryd, adfer, archwiliadau, taliadau, ffioedd ac ati, dyletswyddau a rhwymedigaethau, cyfarpar yr effeithir arno gan waith priffyrdd ac ati, darpariaethau yn ymwneud ag awdurdodau, pwerau ac amryw ddarpariaethau atodol penodol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ymgeisydd esbonio ymhellach effaith ymarferol disodli Darpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol 8 (3) a dewis rhai o ddarpariaethau Rhan 3 yn Erthygl 13 yn unig.
Erthygl 15 – Statws llwybrau troed wedi'u creu neu eu gwella	
13	Byddai'n ddefnyddiol esbonio pam mae'r erthygl hon yn ymdrin â statws llwybrau troed, ac ati, yn unig yn wahanol i Ddarpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol 10. A wnaed hyn i wneud y drafft yn fwy eglur?
Erthygl 16 – Cau strydoedd dros dro	
14	Er gwaethaf y gysail yn DCO cysylltu Hinkley Point, bydd p'un a yw erthygl 16 DCO Wylfa Newydd yn briodol neu'n rhy lydan yn fater i'r ExA, yn dibynnu ar ffeithiau'r cais DCO penodol hwn (gan gynnwys effeithiau awdurdodi safleoedd gweithio dros dro mewn amgylchiadau o'r fath), a chan ystyried unrhyw safbwyntiau a fynegir gan yr awdurdod strydoedd.

Erthygl 17 – Defnyddio ffyrdd preifat ar gyfer adeiladu	
15	Nodir nad oes unrhyw DCO a wnaed yn cynnwys y ddarpariaeth hon ac y gallai fod angen esbonio'r erthygl hon ymhellach. Trwy gyfeirio at adran 120 ac atodlen 5, fel y bo'r angen, pa bŵer cyfreithiol y mae'r erthygl hon wedi'i seilio arno? Nodir bod y pŵer hwn yn dileu'r angen i gaffael hawddfrait. Beth, felly, yw natur gyfreithiol y "mynediad dros dro" a greir os nad yw'n hawddfrait? A yw'r Ymgeisydd wedi amlygu ac ymgynghori ag unigolion sydd â hawl i bob ffordd breifat o fewn terfynau'r Gorchymyn, ac a yw'r unigolion hyn wedi'u hamlygu yn rhan 1 a/neu ran 3 y llyfr cyfeirio? Os na, pam?
Erthygl 19 – Adeiladu a chynnal a chadw strydoedd newydd a strydoedd wedi'u newid	
16	Byddai'n ddefnyddiol pe gellid egluro hyn yn fanylach. Mae erthygl 19 (1) yn darparu y bydd "unrhyw stryd i'w hadeiladu" yn cael ei chynnal a'i chadw am gyfnod o 12 mis gan yr ymgwymerwr cyn i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo i'r awdurdod priffyrdd. Yn ôl erthygl 19 (3), bydd tir nad oedd yn rhan o'r briffordd gyhoeddus yn flaenorol yn cael ei ystyried yn briffordd gyhoeddus ar unwaith (ar ôl ei gwblhau), ac felly bydd yr awdurdod priffyrdd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw bryd hynny. A oes rhywfaint o orgyffwrdd ag 19 (1)? A fyddai "tir nad oedd yn rhan ... yn flaenorol" yn cynnwys "unrhyw" strydoedd newydd "i'w hadeiladu" ac felly y mae'n rhaid iddynt gael eu cynnal a'u cadw gan yr ymgwymerwr am 12 mis yn unol ag 19 (1)?
Erthygl 21 – Mesurau rheoleiddio traffig	
17	Mae Adran 32 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddarparu lleoedd parcio oddi ar y stryd ac awdurdodi defnyddio unrhyw ran o ffordd fel lle parcio; mae Atodlen 7 Deddf Rheoli Traffig 2004 yn darparu ar gyfer gorfodi tramgwyddau traffig ffyrdd. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM esbonio effaith erthygl 21 (4) ymhellach ac amlygu'r pŵer y mae'r erthygl wedi'i seilio arno.
Erthygl 22 – Gollwng dŵr	
18	Byddai eglurhad manylach yn ddefnyddiol. A yw'r difrod neu'r amhariad a awdurdodir gan 22 (5) yn creu trosedd, ac a yw'r erthygl yn datgymhwyso'r sail gyfreithiol i'r drosedd? Ar ba bŵer y mae'r erthygl wedi'i seilio?

Erthygl 27 – Caffael hawliau'n orfodol	
19	O ran yr addasiadau arfaethedig i'r gyfundrefn ddigolledu bresennol, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ymgeisydd wneud sylwadau ar benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i ddileu darpariaethau tebyg yng Ngorchymyn y Grid Cenedlaethol (Prosiect Cysylltu Hinkley Point C) 2016.
Erthygl 29 – Hawliau preifat	
20	O ran 29 (3) (atal hawliau a chyfamodau cyfyngol yn ystod meddiant dros dro), gweler sylwadau ynglŷn ag Erthygl 35, defnydd dros dro o dir ac unrhyw oblygiadau o ganlyniad i'r Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth.
Erthygl 30 – Cymhwyso Deddf 1981	
21	Os gwnaed addasiadau i'r Ddarpariaeth Enghreifftiol Gyffredinol hon er mwyn adlewyrchu newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi esboniad manylach ynglŷn â beth sydd wedi cael ei addasu a pham.
Erthygl 35 – Defnydd dros dro o dir i gynnal y datblygiad awdurdodedig	
22	Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM egluro sut mae'r gwaith (erthygl 35 (1)(b) i (d)) yn cael ei awdurdodi (a yw'r gwaith parhaol wedi'i amlygu'n waith yn atodlen 1?), a ph'un a fu'n destun AEA.
23	Heblaw am rai eithriadau, nid yw prif ddarpariaethau Rhan 2 Pennod 1 (meddiannu tir dros dro) y Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth mewn grym eto ac nid oes unrhyw reoliadau wedi cael eu gwneud. Gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried, maes o law, pa newidiadau, os o gwbl, y gallai fod angen eu gwneud i'r erthygl hon pan ddaw'r darpariaethau i rym.
Erthygl 36 – Defnydd dros dro o dir i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig	

24	Er mwyn cynorthwyo'r archwiliad ac ystyried p'un a yw'r pŵer cyffredinol yn angenrheidiol a/neu'n rhy eang, byddai'n ddefnyddiol deall pam na fu'n bosibl amlygu tir penodol y gallai fod angen hawl mynediad drosto i wneud gwaith cynnal a chadw.
25	Heblaw am rai eithriadau, nid yw prif ddarpariaethau Rhan 2 Pennod 1 (meddiannu tir dros dro) y Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth mewn grym eto ac nid oes unrhyw reoliadau wedi cael eu gwneud. Gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried, maes o law, pa newidiadau, os o gwbl, y gallai fod angen eu gwneud i'r erthygl hon pan ddaw'r darpariaethau i rym.

Erthygl 37 – Ymgwymerwyr statudol

25	Dylai'r Ymgeisydd nodi pan wneir cynrychiolaeth o dan adran 127 Deddf 2008 ac nid yw wedi cael ei thynnu'n ôl, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu awdurdodi erthygl 37 oni bai ei fod yn fodlon ar faterion penodol a amlinellir yn adran 127 Deddf Cynllunio 2008.
26	Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol ychwaith yn gallu awdurdodi symud neu adleoli cyfarpar oni bai ei fod yn fodlon bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cynnal y datblygiad y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn unol ag adran 138 Deddf 2008. Dylai'r Ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad perthnasol yn yr EM neu'r Datganiad o Resymau.

Erthyglau 43 i 71 – Gwaith morol

27	<p>1. Ni ystyriwyd yr erthyglau hyn yn fanwl – bydd safbwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru a Trinity House yn bwysig – ond nid oes unrhyw beth i awgrymu nad oes pŵer yn sail i'r erthyglau. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os nad yw eisoes wedi'i ddarparu yn yr EM, ddyfynnu'r pŵer yn Neddf Cynllunio 2008 y mae'r erthyglau'n dibynnu arno lle nad oes gan y cyfryw erthyglau gysail DCO. • Darparu esboniad helaethach ynglŷn ag effaith, os o gwbl, trosglwyddo swyddogaethau (er enghraifft, mewn perthynas â gorchmynion harbwr o dan Ddeddf Harbyrau 1964 a thaliadau llywio o dan Ddeddf Taliadau Llywio 1987) i Weinidogion Cymru a weithredir gan Ddeddf Cymru 2017.
----	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Erthygl 72 – Symud gweddillion dynol

28	Dylai'r Ymgeisydd esbonio pam mae'r erthygl hon yn angenrheidiol yn amgylchiadau'r prosiect penodol hwn.
----	----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Erthygl 73 – Cymhwyso cyfraith landlordiaid a thenantiaid

29	Dylai'r Ymgeisydd esbonio pam mae'r erthygl hon yn angenrheidiol yn amgylchiadau'r prosiect penodol hwn.
----	----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Erthygl 74 – Tir gweithredol at ddibenion Deddf 1990	
30	Dylai'r Ymgeisydd esbonio pam mae'r erthygl hon yn angenrheidiol yn amgylchiadau'r prosiect penodol hwn, ac egluro p'un a fwriedir cymhwyso'r hawliau datblygu a ganiateir o dan Ddosbarth B (ymgymeriad harbwr) yn ogystal â Dosbarth G (ymgymerwyr trydan).
31	Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM esbonio'n gryno y gwahaniaeth rhwng Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Lloegr) 2015 (sy'n berthnasol ac yn ymestyn i Loegr yn unig) a Gorchymyn 1995 (sy'n berthnasol ac yn ymestyn i Gymru a Lloegr), a pham mae'r olaf yn gymwys.
Erthygl 81 – Gwahardd ac addasu deddfwriaeth leol	
32	Mae'r pŵer o dan adran 120 (5) (b) i ddiwygio, diddymu neu ddirymu darpariaethau statudol cymhwysiad lleol yn dibynnu ar bu'n a yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n fuddiol o ganlyniad i ddarpariaeth y gorchymyn neu mewn cysylltiad â'r gorchymyn. Er mwyn cynorthwyo i archwilio'r erthygl hon, gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried darparu cyfiawnhad llawn mewn perthynas â phob darn o ddeddfwriaeth neu is-ddeddfwriaeth, gan amlygu diben y gyfryw ddeddfwriaeth leol ac esbonio goblygiadau ei diwygio, diddymu ac ati.
Erthygl 84 – Hawliau'r Goron	
33	Mae adran 135(1) Deddf Cynllunio 2008 yn atal caffael yn orfodol tir a ddelir gan neu ar ran y Goron mewn unrhyw amgylchiadau, ac mae ond yn galluogi caffael yn orfodol tir a ddelir 'heblaw gan neu ar ran y Goron' os yw awdurdod priodol y Goron yn caniatáu'r caffaeliad. Mae adran 135(2) yn atal DCO rhag cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n effeithio ar dir y Goron oni bai bod awdurdod priodol y Goron yn rhoi caniatâd.
34	Mae Rhan 4 y Llyfr Cyfeirio yn nodi nad oes bwriad caffael unrhyw fuddiant yn nhir y Goron ac nid yw'n amlygu unrhyw berchenogion buddiant y Goron "y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y Gorchymyn y mae'r Cais yn cael ei wneud amdano". Nid yw'n eglur, felly, pam mae Erthygl 84 (1) yn angenrheidiol i sicrhau caniatâd ar gyfer, ymhlith pethau eraill, defnyddio'r datblygiad awdurdodedig ar dir y Goron, a pham mae'n angenrheidiol o dan 84 (b) i atal "arfer unrhyw hawl o dan y Gorchymyn hwn yn orfodol i gaffael buddiant mewn unrhyw dir sy'n dir y Goron ... heb ganiatâd ysgrifenedig awdurdod priodol y Goron".
35	Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ymgeisydd egluro p'un a yw'r DCO, trwy erthyglau 2 (dehongli tir y Gorchymyn) a 25 (1) (caffael tir yn orfodol), yn awdurdodi caffael yn orfodol tir a ddelir (1) gan y Goron a (2) tir a ddelir heblaw gan neu ar ran

	y Goron. Dylai'r Ymgeisydd hefyd amlygu unrhyw ddarpariaethau yn y DCO sy'n effeithio ar dir y Goron.
36	<p>Yn dibynnu ar yr eglurhad a roddir yng nghyd-destun yr uchod, gallai fod angen i'r ExA weld caniatâd penodol gan Ystad y Goron mewn perthynas ag adran 135 (1) (tir a ddelir heblaw gan y Goron) ac adran 135 (2) (darpariaethau sy'n effeithio ar dir y Goron) cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn achos Glyn Rhonwy, daeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad canlynol:</p> <p><i>Ceisiodd yr Ymgeisydd bwerau caffael gorfodol dros ddwy lain o dir yr enwyd y Weinyddiaeth Amddiffyn fel corff a chanddo fuddiant ynddynt. Nid oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi mynegi yn ystod yr archwiliad p'un a oedd wedi rhoi caniatâd i'r caffaeliad. Felly, ceisiodd yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhad gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn â ph'un a oedd wedi rhoi'r caniatâd gofynnol bellach. Ni ymatebodd y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r ymgynghoriad, ond ymatebodd yr Ymgeisydd, gan ddatgan na fyddai'n ceisio caffael y lleiniau tir dan sylw yn orfodol a gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu'r darpariaethau perthnasol o'r Gorchymyn drafft. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, felly, wedi gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Gorchymyn.</i></p>

Erthygl 85 – Trwyddedau yn ymwneud â dŵr ac ati

37	Mae adran 120 (5) yn darparu y caiff DCO gymhwyso, addasu neu eithrio darpariaeth statudol sy'n ymwneud ag unrhyw fater y ceir darparu ar ei gyfer yn y gorchymyn. Mae erthygl 85 yn eithrio darpariaeth statudol. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r EM amlygu'r pŵer y mae erthygl 85 wedi'i seilio arno ac egluro pam, o ran y dewis drafftio gorau, nad yw'r erthygl hon wedi'i disgrifio o dan y pennawd Datgymhwyso ac addasu darpariaethau deddfwriaethol. Fel yr amlygwyd uchod mewn perthynas ag erthygl 81, er mwyn cynorthwyo i archwilio erthygl 85, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ymgeisydd esbonio diben adran 25 Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ac esbonio goblygiadau eithrio'r gofyniad i gael trwydded.
----	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Atodlen 1

38	Yr egwyddor ddrafftio allweddol yma yw y dylai fod yn amlwg beth sy'n cael ei awdurdodi ac ni ddylai fod anghysondebau rhwng disgrifiadau yn y DCO ac unrhyw ddogfennau eraill, gan gynnwys yr ES a chynlluniau gwaith.
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Gofynion Atodlen 3

39	<p>Nid yw hyn wedi cael ei ystyried yn fanwl. Dylai'r Ymgeisydd ystyried y canllawiau yn Nodyn Cyngor 15 Drafftio Gorchymynion Caniatâd Datblygu, gan gynnwys y canlynol:</p> <p><i>17.1 Mae adran 120 Deddf Cynllunio 2008 yn darparu y caiff DCO osod gofynion mewn cysylltiad â'r datblygiad y rhoddir</i></p>
----	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

caniatâd ar ei gyfer. Gallai gofynion o'r fath gyd-fynd ag amodau y gellid bod wedi'u gosod ar roi unrhyw ganiatâd, cydsyniad neu awdurdodiad a fyddai wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer y datblygiad.

17.2 Mae'n debygol y bydd y gyfraith a pholisi yn ymwneud ag amodau cynllunio, a osodir ar ganiatadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn berthnasol yn gyffredinol wrth ystyried gofynion i'w gosod mewn DCO mewn perthynas ag elfennau daearol prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIP) arfaethedig. Felly, dylai amodau fod yn fanwl gywir ac yn orfodadwy, yn angenrheidiol, yn berthnasol i'r datblygiad ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

19. Darparu hyblygrwydd – cymeradwyo ac amrywio manylion terfynol.

19.1 Wrth baratoi'r DCO drafft, bydd angen i ymgeiswyr ystyried yn ofalus pa agweddau ar y datblygiad arfaethedig y gellir eu gadael i'w cymeradwyo'n ddiweddarach gan yr awdurdod cynllunio lleol (ACLI) a pha agweddau y gellir neu y dylid eu pennu gan delerau'r DCO. Mae paragraff 82 Canllawiau cyn-ymgeisio yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) yn cynghori y ceir cynnig gofyniad sy'n caniatáu i fanylion "agweddau terfynol penodol" datblygiad gael eu cyflwyno'n ddiweddarach i'r ACLI neu gorff arall i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig.

19.2 O ran materion a bennir gan delerau'r DCO, gellir awdurdodi newidiadau i'r DCO yn y ffordd ragnodedig o dan adran 153 ac atodlen 6 Deddf Cynllunio 2008 yn unig. Yn ogystal, nid ystyrir ei bod yn dderbyniol osgoi'r broses ragnodedig yn atodlen 6 trwy geisio darparu llwybr arall ar gyfer cymeradwyo'r cyfryw newidiadau neu amrywiadau, gan unigolyn heblaw am yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaeth y DCO, er enghraifft trwy gymhwyso darpariaethau adran 73 a/neu adran 96A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

19.3 Felly, ni fyddai'n dderbyniol cynnwys ychwanegiad fel yr un isod oherwydd fe allai ganiatáu i'r ACLI gymeradwyo newid i gwmpas y datblygiad awdurdodedig y cyflwynwyd cais amdano ac a archwiliwyd, ac osgoi'r broses statudol: Mae'n rhaid i'r datblygiad awdurdodedig gael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen gais [x] [o fewn terfynau'r Gorchymyn] oni chymeradwyir fel arall yn ysgrifenedig"

19.4 Ar y llaw arall, gallai gofyniad wneud y caniatâd datblygu'n amodol ar y ffaith bod yr ACLI yn cymeradwyo agweddau manwl ar y datblygiad o flaen llaw (er enghraifft, manylion cynllun tirweddu). Lle y rhoddir pŵer i'r ACLI (neu gorff cyflawni arall) gymeradwyo'r cyfryw fanylion, bydd yn dderbyniol caniatáu i'r corff hwnnw gymeradwyo newid i fanylion yr oedd eisoes wedi'u cymeradwyo. Fodd bynnag, ni ddylai'r ychwanegiad (neu eiriad arall) ganiatáu i'r ACLI gymeradwyo manylion sy'n gwyro oddi wrth y paramedrau a osodwyd ar gyfer y datblygiad yn rhan o'r broses archwilio a chymeradwyaeth ddilynol yr Ysgrifennydd Gwladol.

Arfer Da:

Os yw gofyniad yn gosod rhwymedigaeth ar yr ymgeisydd i geisio cymeradwyaeth ar gyfer manylion terfynol cynllun, ni ddylai'r ychwanegiad gael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n caniatáu i'r ACLI hepgor yr angen am gynllun yn gyfan gwbl. Ni ddylai'r ychwanegiad ychwaith alluogi'r ACLI i amrywio'r cynllun yn ysgrifenedig mewn ffordd sy'n golygu bod y cynllun yn gwyro oddi wrth yr egwyddorion a bennwyd gan y cais.

Gwaith rhif 5 – Cyfleusterau oddi ar safle’r orsaf bŵer	
40	Mae Gwaith rhif 5 yn cynnwys manylion cyfyngedig ynglŷn â beth a olygir wrth gyfleusterau oddi ar safle’r orsaf bŵer, o gymharu ag (er enghraifft) Gwaith rhif 6 neu 7 sy’n cyfeirio at adeiladau, parcio, draenio, adfer ac ati. Gan nad oes llawer o fanylion yn y DCO, nid oes llawer o hyder bod yr ES wedi asesu’n gywir yr hyn y gellid ei adeiladu. Gallai’r Ymgeisydd ddymuno cynnwys rhagor o fanylion yn y disgrifiad o’r gwaith.
Datganiad o ddulliau adeiladu MS2 a (3)	
41	A ddylai hyn ddweud y dylai unrhyw ddiwygiadau i’r datganiad o ddulliau adeiladu gael eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio perthnasol ‘a’u cytuno gydag ef’?
Tirweddu MS[6]/ MS[35]/ EW[2]/ OSF[8]/ PR6/ LC2	
42	Mae’r DCO drafft yn caniatáu i gynlluniau tirweddu parhaol gael eu cyflwyno i’w cymeradwyo’n ddiweddarach. Dylai unrhyw fanylion ynglŷn â thirweddu parhaol y dibynnir arnynt yn yr ES gael eu cynnwys yn y cynlluniau/dogfennau a restrir yn MS[6](2)/MS[35](2)/EW2/OSF[8](2)/PR6(2)/LC6(2).
Paramedrau’r orsaf bŵer MS[11]	
43	Mae’r Arolygiaeth Gynllunio yn tybio mai’r uchder mwyaf yng ngholofn 6 yw’r uchder uwchben lefel y platfform, oherwydd darperir yr uchder mwyaf AOD yn y golofn olaf. Dylai hyn gael ei egluro.
Datgomisiynu a gwaith adfer MS[36]	
44	Mae lluniadau WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00009, WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00010 ac WN0902-HZDCO-SCA-DRG-00011 yn gynlluniau adfer ar gyfer campws y safle. A ddylid cyfeirio at y lluniadau hyn yn y gofynion DCO drafft fel bod yr hyn a ddisgwylir ar ôl datgomisiynu yn eglur? Os oes unrhyw egwyddorion/tybiaethau eraill yn yr ES, dylai’r rhain gael eu cynnwys yn y cynllun datgomisiynu hefyd a dylid caniatáu ar gyfer hyn yng ngeiriad y gofyniad (er enghraifft, mae paragraff 2.4.2 Dogfen 6.1.2 Cyfrol A yr ES, Pennod A2, yn datgan y byddai’r “ardal yn cael ei dychwelyd i’w chyflwr cyn ei datblygu”).

	<p>Nodir hefyd bod yr atodiad i Adroddiad Cwmpasu mis Mai 2017 yn cyfeirio at Gynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer y Dirwedd (LEMP) i ddarparu manylion am ddatgomiysynu; fodd bynnag, ni wnaed cyfeiriad o'r fath yn y DCO drafft. A fydd cyfeiriad yn cael ei wneud at LEMP yn y DCO drafft?</p> <p>Mae'r sylw uchod hefyd yn berthnasol i PR7. Nodir bod paragraff 2.4.11 Dogfen 6.1.2 Cyfrol A yr ES, Pennod A2, yn datgan "byddai'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei ddileu a byddai'r tir yn cael ei adfer i'w ddefnydd presennol (tir amaethyddol). Byddai llinell bresennol perthi a llinell newydd arfaethedig perthi i'r gorllewin o'r safle, ynghyd â choed a llwyni a blannwyd, gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol, ar y ffin ddeheuol yn cael eu cadw fel budd etifeddol" (ond ni ddarparwyd unrhyw gynlluniau adfer gyda'r dogfennau drafft).</p> <p>Nodir hefyd nad oes gofyniad tebyg ar gyfer y ganolfan logisteg ar hyn o bryd. Mae paragraff 2.4.11 Dogfen 6.1.2 Cyfrol A yr ES, Pennod A2, yn datgan "Yn dilyn adeiladu'r Orsaf Bŵer, byddai'r safle ar gael ar gyfer defnydd arall yn amodol ar sicrhau caniatadau angenrheidiol". Os yw'r AEA wedi tybio y byddai'r ganolfan logisteg yn bresennol tra bod yr orsaf bŵer yn cael ei hadeiladu yn unig, dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y gofynion DCO drafft.</p>
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Lluniadau manwl a pharmedrau cyfleusterau oddi ar safle'r orsaf bŵer OPSF[2] ac OPSF[3]

45	<p>Mae OPSF[2] yn datgan bod rhaid i safle cyfleusterau oddi ar safle'r orsaf bŵer gael ei gynnal yn unol â lluniadau manwl cymeradwy. Tybir y byddai'r lluniadau manwl yn cael eu cyflwyno gyda'r cais DCO; fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddatgan yng ngholofn olaf y tabl. Os nad ydynt am gael eu darparu gyda'r cais DCO, dylai fod rhyw fath o gysylltiad â'r paramedrau mwyaf yng ngofyniad OPSF[2]. Sut bynnag, mae'n rhaid i barmedrau'r lluniadau manwl fod o fewn yr amlen a ddisgrifiwyd ac a aseswyd yn yr ES.</p> <p>Mae OPSF[3] yn datgan os na chaiff cyfleusterau oddi ar safle'r orsaf bŵer eu cynnal yn unol â lluniadau manwl cymeradwy, rhaid iddynt gael eu hadeiladu yn unol â'r paramedrau a ddatganir yn OPSF[3]. Dylai'r Ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai Awdurdod Archwilio gyfyngu datblygiad i un ymagwedd yn unig.</p> <p>Mae'r un sylw'n berthnasol i LC3 ac LC4.</p>
----	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

PR[6] (Gwaith Tirwedd Parhaol) ac LC6

46	<p>Sylwer bod dau ofyniad PR6 ar hyn o bryd.</p> <p>Bwriedir cadw rhywfaint o'r tirweddu fel buddion 'etifeddol' ar ôl i'r gwaith hwn gael ei ddatgomiysynu. Mae hyd oes y cyfleuster parcio a theithio a'r ganolfan logisteg yn fyr o gymharu â gweddill y datblygiad arfaethedig. Mae'r Arolygiaeth</p>
----	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

	<p>Gynllunio yn argymhell y dylid ystyried gweithredu cynllun tirwedd cyn gynted â phosibl, efallai cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, fel bod deiliach yn gallu aeddfedu a sefydlu i ddarparu mesur lliniaru effeithiol tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr agweddau tymhorol hyn yn cael eu hystyried yn yr ES, er enghraifft drwy egluro erbyn pryd y byddai mesurau lliniaru'n effeithiol ac unrhyw dybiaethau a wnaed.</p> <p>Mae'r atodiad i Adroddiad Cwmpasu mis Mai 2017 yn datgan y byddai'r LEMP yn cynnwys y cyfleuster parcio a theithio a'r ganolfan logisteg; felly, mae sylwadau blaenorol ynglŷn â'r LEMP yn berthnasol yma hefyd.</p>
<p>Cod Ymarfer Adeiladu, Cod Ymarfer Gweithredol ac Is-godau Ymarfer Adeiladu ac Is-godau Ymarfer Gweithredol</p>	
47	<p>Croesewir y CoCP, y Cod Ymarfer Gweithredol (CoOP) a'r is-CoCPau a'r is-CoOPau arfaethedig.</p> <p>Mae'r Apelydd yn datgan bod y dogfennau hyn wedi'u hardystio ac wedi'u cwblhau'n derfynol. Felly, nid yw'n eglur pam mae'r DCO drafft wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd i alluogi cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio perthnasol.</p> <p>Beth bynnag am hynny, argymhellir bod eu cynnwys yn cael ei gytuno gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod y cam cyn-ymgeisio. Gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried p'un a ddylai unrhyw ymgylgoreion statudol eraill ymwneud â'r broses o gymeradwyo'r dogfennau hyn. Cynghorir yr Ymgeisydd i groeswrio mesurau lliniaru'n fanwl yn yr ES a'r dogfennau arfaethedig. Mae'r un peth yn wir am y Strategaeth Rheoli Cynefinoedd a strategaethau eraill a amlygir yn y DCO drafft y dibynnir arnynt i liniaru effeithiau arwyddocaol posibl.</p>

Atodiad D

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar y Datganiad o Resymau (SoR), y Datganiad Cyllido (FS) a'r Llyfr Cyfeirio (BoR) drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig.

Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Rhoddir sylwadau yn y tabl isod:

<i>Pwynt Rhif</i>	<i>Datganiad o Resymau Rhan / cyfeiriad</i>	<i>Cwestiwn/Sylw</i>
1	Cyffredinol	Dylid sicrhau bod yr holl gyfeiriadau at baragraffau a dogfennau eraill y cais yn gyson, yn ogystal ag Erthyglau perthnasol y DCO. Nid yw Atodiadau wedi'u cynnwys yn y SoR drafft.
2	Paragraff 3.1.1 ac eraill	Nid oes diffiniad o gyrsiau dŵr wedi'i gynnwys yma fel yn Erthygl 2 y DCO; a ddylid tybio nad ystyrir bod angen ei restru o dan y pennawd 'Diffiniad penodol i'w nodi'?
3	Paragraffau 3.1.1 - 3.3.4	Mae'r rhain yn esbonio'r caniatâd paratoi a chlirio safle ar wahân y mae Horizon yn ei geisio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; fodd bynnag, os na roddir caniatâd fe'i cynhwysir yng ngwaith rhif 12 – dylid ystyried a yw hyn yn ddigon eglur.
4	Paragraff 5.4.22	Cyfeiriad at Atodlen 1 y DCO a'r Cynlluniau Gwaith – gwaith manwl sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect.

5	Paragraff 7	Gwybodaeth wedi'i chyflwyno'n dda am gwmpas a diben pwerau caffael gorfodol a meddiannu dros dro.
6	Paragraff 7.2.11	Fel arfer, ni chyfeirir at y tribiwnlys ar gyfer datrys anghydfodau fel hyn. Dylid ystyried defnyddio'r derminoleg a ddefnyddir yn 10.6.6.
7	Paragraff 8	Disgrifiad o dir y Gorchymyn; nodir ei fod yn eglur ac y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei hychwanegu at y ddogfen, fel siartiau llif, cynlluniau ac ati.
8	Paragraff 9	Esbonnir y strategaeth gaffael, gan gyfeirio at ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r rhai hynny sydd â buddiant mewn tir yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae paragraff 9.1.6 yn datgan bod yr Adroddiad Ymgynghori'n rhoi mwy o wybodaeth. Bydd angen croesgyfeirio ato.
9	Paragraff 9.2	Sut mae'r paragraff hwn yn cyd-fynd â'r BoR? Os oes ganddo gytundebau ar waith, pam mae angen i Horizon gaffael y tir hwn yn orfodol (Dalar Hir a Pharc Cybi)?
10	Paragraff 10	Cyfiawnhad a chyfeiriad at Ganllawiau'r DCLG: Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol (Medi 2013).
11	Cyffredinol	Nid yw'r Datganiad o Resymau'n mynd i'r afael â'r llain o dir yn rhan 1 – llain 6 y BoR – yr A5025 – Priffyrdd sy'n Gwyo Oddi Wrth y Llinell Bresennol (Tir categori arbennig sy'n destun gweithdrefn seneddol).
12	Paragraffau 11.2.1 ac 11.2.2	Mae sylwadau yn rhan uchod y DCO drafft yn ymdrin ag erthyglau tir y Goron. Mae paragraffau 11.2.1 ac 11.2.2 y SoR yn datgan yn fyr na fwriedir caffael tir y Goron (a ddelir gan, a ddelir heblaw gan?) yn orfodol. Dylid rhoi eglurhad pellach mewn perthynas ag erthygl 84 tir y Goron (ac unrhyw ddarpariaethau eraill sy'n effeithio ar dir y Goron) a'r angen, neu fel arall, i gael caniatâd Ystad y Goron cyn i'r DCO gael ei wneud.

13		Mae sylwadau yn rhan uchod y DCO drafft yn ymwneud ag erthygl 37 – ymgwymerwyr statudol. Mae caffael tir ymgwymerwyr statudol/ymyrryd â chyfarpar yn destun darpariaethau adrannau 127 ac 138. Dylid darparu cyfiawnhad pellach ynglŷn â hyn yn yr EM neu'r SoR.
Pwynt Rhif	Datganiad Cyllido Rhan / cyfeiriad	Cwestiwn/Sylw
1	Paragraff 1.1.1	Awgrymir dileu'r dyddiad yn enw'r DCO. Ar hyn o bryd, mae'n dweud Gorchymyn [2018]. Mae arfer da'n awgrymu naill ai defnyddio cyfeiriad at Deitl y ddogfen, fel "Gorchymyn Caniatâd Datblygu 20[]", a chyfeirio ati fel y "Gorchymyn Caniatâd Datblygu" o fewn cynnwys y ddogfen.
2	Paragraff 2.1	Dylid ystyried p'un a fyddai diagram o'r Horizon Group yn ddefnyddiol yma.
3	Paragraff 2.2.2	Mae'r Ymgeisydd yn datgan: 'Mae mwyafrif y tir o fewn Safle Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa eisoes ym mherchenogaeth Horizon neu o dan ei reolaeth'. Dylid ystyried a oes angen gwybodaeth fanylach yma.
4	Paragraff 2.3.1	Cyfeiriad at Atodiad 1: copi o'r cyfrifon cyfunol ar gyfer Hitachi, sef prif riant-gwmni Horizon. Heb ei gynnwys.
5	Paragraff 3.1	Crybwyllir Prynu'n Orfodol ar brydiau pan ddylid defnyddio caffael yn orfodol yng nghyd-destun Deddf Cynllunio 2008.

Pwynt Rhif	Llyfr Cyfeirio Rhan / Cyfeiriad	Cwestiwn/Sylw
1	Cyffredinol	Bydd aildechrau'r llyfr cyfeirio ar gyfer pob is-lyfr cyfeirio yn achosi dryswch yn ystod yr archwiliad, yn ôl pob tebyg, oherwydd bydd sawl llain yn rhannu'r un rhif llain; argymhellir defnyddio dull gwahanol.
2	Cyffredinol	Gallai'r golofn Buddiannau/Hawliau i'w caffael elwa o droednodyn sy'n esbonio beth yw'r diben neu ble y gellir dod o hyd i eglurhad.
3	Cyffredinol	A fyddai'n bosibl rhestru'r holl hawliau o dan bob perchennog categori 2 yn hytrach nag ailadrodd y perchennog eto? Byddai hyn yn hwyluso llywio trwy'r BoR.
4	Cyffredinol	Mae'r BoR yn rhestru pobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad ar y cyd; mae angen i unigolion yr effeithir arnynt/unigolion categori tri gael eu rhestru'n unigol ac nid gyda'i gilydd.
5	Cyffredinol	Cynghorir yr Ymgeisydd i adolygu ei restr o ymgygoreion a44 yn erbyn y BoR er mwyn sicrhau bod yr holl bartion a restrir fel ymgygoreion a44 wedi'u rhestru gyda'r cyfeiriad cywir yn y llyfr cyfeirio a bod yr holl bartion wedi'u rhestru'n unigol.
6	Prif Safle - Rhan 2, Dalar Hir – Rhan 2 a Pharc Cybi – Rhan 2	Nid yw'n cynnwys unrhyw bobl categori 3. Dylai hyn gael ei gyfiawnhau yn y cais.

7	Cyffredinol	Os yw'n bosibl, a ellid rhestru'r holl hawliau o dan hawliau'r perchennog yn hytrach nag ailadrodd y cyfeiriad a'r hawl newydd? Byddai hyn yn gwneud y ddogfen yn fwy hwylus i lywio trwyddi.
---	-------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Atodiad E

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar y cynlluniau gwaith a thir drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig.

Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Rhoddir sylwadau yn y tabl isod:

<i>Pwynt Rhif</i>	<i>Rhan / cyfeiriad</i>	<i>Cwestiwn/Sylw</i>
1	Cyffredinol	Mae rhannau ar wahân wedi'u neilltuo i waith y tu allan i'r brif ardal ddatblygu (Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd) yn y llyfr cyfeirio. Mae hyn yn golygu bod sawl llain yn y Llyfr Cyfeirio (BoR) sydd â'r un rhif. Mae'n amlwg pa gofnodion yn y BoR sy'n berthnasol i leiniau ar y cynlluniau tir, er nad ystyrir mai hwn yw'r dull arferol o labelu lleiniau.
2	Cyffredinol	Nid yw'n ymddangos bod cynllun allwedd ar gyfer y cynlluniau tir a gwaith y tu allan i'r brif ardal ddatblygu.
3	Cyffredinol	Mae cynllun WN0902-HZDCO-LPN-DRG-00006 wedi'i labelu'n anghywir fel WN0902-HZDCO-LPN-DRG-00005 (mae dau gopi o 00005 wedi cael eu cyflwyno ond maen nhw'n gwbl wahanol)

4	Cyffredinol	Er ei bod yn amlwg ble mae'r Ffin Llinell Goch (RLB) wedi'i lleoli, byddai'n ddefnyddiol pe gellid ei dangos mewn lliw coch mwy tywyll (ar hyn o bryd, defnyddir arlliw tebyg i ddsbarth 1 (pinc)).
5	Cyffredinol	Er nad yw hyn yn orfodol, byddai llinellau toredig ar gynlluniau i ddangos parhad o gymorth (fel ar brosiect Keuper).
6	Cynlluniau Gwaith	Er y gellir adnabod gwaith yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar y cynlluniau gwaith a gyflwynwyd, nid ydynt yn manylu ar y rhannau unigol sy'n ffurfio'r gwaith (fel adeiladau, tyrau oeri ac ati). Mae'n bosibl yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon mewn cynlluniau eraill na chyflwynwyd yn ystod y cam hwn.
7	Cynlluniau tir	<p>Mae toriadau o ddalen i ddalen yn dangos ardaloedd tebyg. Mae labeli rhai lleiniau ar goll ar ddalenni, lle nad yw llain wedi'i dangos yn ei chyfanrwydd ar un ddalen.</p> <p>Gwelir enghraifft o hyn o ran lleiniau 15 ac 20. Mae'r lleiniau hyn yn ymddangos ar ddalenni 1 a 2 y Cynllun tir, ond nid yw'r labeli sy'n adnabod y lleiniau'n ymddangos ar ddalen 2.</p> <p>Gwelir enghraifft arall o hyn o ran llain 60 – mae wedi'i labelu ar ddalen 2 ond nid ar ddalen 1.</p> <p>Dwy enghraifft yn unig yw'r rhain, ond defnyddir yr ymagwedd hon ar gyfer yr holl gynlluniau a gyflwynwyd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy cymhleth i ddarllen cynlluniau (gallai fod angen sawl dalen i weld un llain) ac yn arwain at ddryswch oherwydd gallai labeli ymddangos ar un ddalen yn unig ac nid y llall, lle mae lleiniau wedi'u dangos ar fwy nag un ddalen.</p>

8	Cynlluniau tir	Mae'r defnydd o liw gwyn ar gyfer tir dosbarth 6 (Tir nad yw'n ddarostyngedig i bwerau caffael) yn aneglur. Er ei bod yn bosibl adnabod y lleiniau hyn (maen nhw o fewn yr RLB a bydd label ar un o'r dalenni o leiaf), defnyddir yr un lliw ar gyfer tir sydd y tu allan i gwmpas y Prosiect hwn.
9	Cynlluniau tir	<p>Gall amryw bartïon fod yn berchen ar dir dosbarth 6, gan gynnwys Ystad y Goron, y datblygwr ac eraill. Dylai tir y Goron gael ei labelu'n eglur (lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw dir y Goron – 5(2)(n) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009).</p> <p>Amlygir y tir hwn yn rhan 4 y BoR (lleiniau 60 ac 115 – 117), ond nid yw'n ymddangos bod cynllun penodol wedi'i gyflwyno ar ei gyfer, a rhennir y dosbarth tir â thir sydd ym mherchenogaeth arall.</p>
10	Cynlluniau tir	Mae ardaloedd heb rifau llain sydd wedi'u hamgylchynu'n gyfan gwbl gan dir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad – fel y tir o fewn llain 63. Oni ddylai'r tir hwn gael rhif llain (dosbarth 6)?
11	Cynlluniau tir	Mae'r llinell ffin rhwng lleiniau 98 a 100 yn aneglur.
12	Cynlluniau tir	A yw llain 57 (dalen 1) yn cynnwys y ddwy ran (yr ardaloedd Trapesoidaidd a Thrianglog) mewn un llain (nid yw'n eglur a yw'r ddwy ardal wedi'u cysylltu ai peidio)? Mae'r maint mewn m ² yn awgrymu bod y cyfan yn rhan o'r un llain.
13	Cynlluniau tir	Mae'n ymddangos bod y label ar gyfer llain 104 yn amlygu llain 102 – os na, efallai bod llain heb ei labelu i'r chwith o lain 123.

Atodiad F

Prosiect Wylfa Newydd: Sylwadau ar yr adroddiad ymgynghori drafft

Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud yn unig â materion sy'n codi yn sgil drafftio'r dogfennau, ac nid rhinweddau'r cynnig.

Maent wedi'u cyfyngu yn unol â'r amser a oedd ar gael i'w hystyried, ac fe'u codir heb ragfarnu derbyn neu wrthod y cais terfynol. Fe'u darperir er mwyn cynorthwyo i baratoi fersiwn nesaf y dogfennau cais DCO.

Rhoddir sylwadau yn y tabl isod:

Pwynt Rhif	Rhan / cyfeiriad	Cwestiwn/Sylw
1	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau os oes camgymeriadau o ran dyddiadau ar lythyrau a anfonwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, dylai hyn gael ei esbonio'n llawn yn yr Adroddiad Ymgynghori.
2	Paragraff 5.1.11	Mae angen egluro yn yr adroddiad pam y daeth yr ymgynghoriad PAC2 i ben ar 25 Hydref 2016 ond byddai ymatebion yn cael eu hystyried hyd at 16 Tachwedd 2016.
3	Paragraffau 3.4.23 a 6.3.3	Mae angen cadarnhau'r terfyn amser 28 niwrnod ar gyfer yr ymgynghoriad SoCC ffurfiol yn yr adroddiad (mae paragraffau 3.4.23 a 6.3.3 yn datgan ei fod wedi rhoi 28 niwrnod i'r awdurdod lleol ymateb). Gallai'r Ymgeisydd ddymuno datgan yn y testun y terfyn amser a roddwyd a rhoi copïau o'r llythyr.

4	Cyffredinol	Cynghorir yr Ymgeisydd i adolygu'r adroddiad er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a hepgorwyd wedi cael ei chynnwys yn y fersiwn derfynol.
5	Cyffredinol	Er y disgwylir y bydd y rhain yn cael eu darparu gyda'r adroddiad terfynol, nodir nad yw'r adroddiad ymgynghori drafft yn cynnwys copïau o'r llythyrau a anfonwyd at yr ymgynghoreion a42.
6	Atodiad: Sampl o Adborth o'r Ymgynghoriad ar Gam Un Cyn-ymgeisio	<p>Gallai'r Ymgeisydd ddymuno adolygu'r teitl a roddwyd i'r atodiad hwn fel ei fod yn unol â'r rhai eraill a restrir yn yr Adroddiad Ymgynghori.</p> <p>Awgrymir bod y tabl sy'n ymwneud â sampl o adborth o'r 'Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio Cam Un' yn cael ei groesgyfeirio ag atodlen o 'newidiadau i'r cais', neu rywbeth tebyg er mwyn gweld beth oedd y newidiadau hynny'n rhwydd.</p> <p>Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Ymgeisydd yn amlygu pa ddull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio mewn perthynas â'r tablau, a defnyddio'r un dull drwy gydol yr adroddiad terfynol.</p>